

Ymgynghoriad ar wahardd therapi trosi 2021-2022

Gwahardd therapi trosi: dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriadau

Mehefin 2026

Y Swyddfa dros Gydraddoldeb a Chyfle

Ymwadiad: *Comisiynwyd a chwblhawyd yr adroddiad hwn o dan y weinyddiaeth flaenorol ond ni chafodd ei gyhoeddi. Fe'i cyhoeddir nawr o dan ymrwymiad y llywodraeth bresennol i fod yn agored a thryloyw. O ystyried y cefndir hwn, nid yw cynnwys nac iaith y ddogfen hon yn adlewyrchu polisi cyfredol y llywodraeth. Er bod y Swyddfa dros Gydraddoldeb a Chyfle wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir, nid yw'n gwarantu cywirdeb, cyflawnrwydd na defnyddioldeb y wybodaeth honno.*

Ynglŷn â'r awduron



Mae Alma Economics yn cyfuno arbenigedd dadansoddol heb ei ail â'r gallu i gyfleu syniadau cymhleth yn glir.

www.almaeconomics.com

Tabl cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
Cefndir ac amcanion	4
Gwahardd gweithredoedd o arferion trosi	5
Offer polisi ychwanegol i roi terfyn ar arferion trosi	6
1. Cyflwyniad	8
1.1 Strwythur a fformat yr ymgynghoriad	8
1.2 Prosesu data	9
1.3 Ymatebion ymgyrchoedd a dileu dyblygiadau	11
1.4 Dull dadansoddi meintiol	12
1.5 Dull dadansoddi ansoddol	12
1.6 Cyfyngiadau	13
1.7 Strwythur yr adroddiad	13
2. Trosolwg o'r ymatebion a dderbyniwyd	15
2.1. Cyfanswm yr ymatebion	15
2.2. Proffil yr ymatebwyr unigol	15
2.3. Proffil ymatebwyr sefydliadol	16
3. Gwahardd gweithredoedd o arferion trosi	18
3.1. Barn ar wahardd arferion trosi	18
Dadansoddiad thematig	19
3.2. Gweithredoedd corfforol arferion trosi	22
Dadansoddiad thematig	23
3.3. Arferion trosi nad ydynt yn gorfforol	25
Dadansoddiad thematig	28
4. Offer polisi ychwanegol i roi terfyn ar arferion trosi	32
4.1. Cyfyngu ar hyrwyddo arferion trosi	32
Dadansoddiad thematig	33
Dadansoddiad thematig	35
Dadansoddiad thematig	39
4.2. Diogelu pobl rhag arferion trosi dramor	39
Dadansoddiad thematig	42

4.3.	Sicrhau nad yw elusennau'n cefnogi arferion trosi	45
	Dadansoddiad thematig	46
4.4.	Themâu trawsbynciol ar hyrwyddo arferion trosi	49
4.5.	Sicrhau bod gwasanaethau statudol yn cydnabod arferion trosi	50
	Dadansoddiad thematig	52
	Dadansoddiad thematig	58
4.6.	Themâu trawsbynciol sy'n ymwneud â gwasanaethau statudol	60
5.	Asesiadau o effeithiau economaidd a chydraddoldeb	61
6.	Themâu trawsbynciol	65
6.1.	Termau allweddol mewn cynigion	65
6.2.	Ymdrin â chyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol	65
6.3.	Dulliau gwahanol ar gyfer pobl dan 18 oed	66
6.4.	Darparu gwasanaethau gofal iechyd	67
6.5.	Codi ymwybyddiaeth o adnoddau a chymorth	68
	Cyfeiriadau	69
	Atodiad A: Cwestiynau Ymgynghori	70
	Cwestiynau am yr ymatebydd	70
	Cwestiynau am brofiadau ymatebwyr o therapi trosi	74
	Barn ar wahardd therapi trosi - cwestiynau ymgynghori	75
	Gwerthusiad economaidd	78
	Asesiad effeithiau ar gydraddoldeb	79
	Cwestiynau'n ymwneud â phreifatrwydd	79
	Atodiad B: Tablau crynodeb o ymatebion i gwestiynau fformat caeedig	80
	Proffil yr ymatebwyr	80
	Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad	85
	Atodiad C: Dull technegol o ddadansoddi ansoddol	168

Crynodeb gweithredol

Cefndir ac amcanion

Ymrwymodd y llywodraeth flaenorol yn 2021 i gyflwyno gwaharddiad deddfwriaethol ar arferion trosi.¹ I gefnogi hyn, lansiodd ymgynghoriad a oedd ar agor am 14 wythnos rhwng 29 Hydref 2021 a 4 Chwefror 2022 gan ofyn am farn ar becyn o fesurau arfaethedig a fyddai'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 21 o gwestiynau testun rhydd fformat caeedig a 13 o gwestiynau testun rhydd fformat agored gan ganolbwyntio ar *sut* y dylai'r llywodraeth flaenorol wahardd arferion trosi. Gofynnwyd cwestiynau am gynigion gan gynnwys y drosedd newydd a chynnwys arferion trosi yn ffactor gwaethybol wrth ddedfrydu am droseddau treisgar neu gorfforol presennol. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad hefyd ar fesurau sifil, gan gynnwys cyflwyno gorchmynion amddiffyn a'r effaith ar fframweithiau rheoleiddio presennol megis hyrwyddo, hysbysebu ac elusennau.

Comisiynwyd Alma Economics, ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol, i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn er mwyn cynhyrchu crynodeb cynhwysfawr o safbwyntiau'r ymatebwyr. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg manwl o'r egin fewnwelediadau allweddol o'r ymatebion, gan gynnwys rhai gan unigolion a sefydliadau. Ar gyfer cwestiynau fformat caeedig, mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canlyniadau o ddadansoddiad segmentu, sy'n dadansoddi ymatebion yn ôl y math o ymatebydd a demograffeg allweddol, er mwyn helpu i ddeall yn well sut roedd safbwyntiau'n amrywio ar draws ymatebwyr.

Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 28,569 o ymatebion dilys, a'r mwyafrif helaeth (96%) wedi'u cyflwyno drwy'r platfform ar-lein Citizen Space a'r ymatebion dros ben wedi'u cyflwyno drwy'r e-bost neu'r post. Cyflwynwyd 98% (27,932 o ymatebion dilys) gan unigolion a chyflwynwyd 2% (628 o ymatebion dilys) ar ran sefydliadau. Ymhlith yr ymatebwyr a nododd eu bod yn unigolion:²

- Nododd 45% o'r ymatebwyr unigol eu bod yn syth/heterorywiol, 23% yn hoyw neu'n lesbiaidd, 15% yn ddeurywiol, a 7% bod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol arall (atebodd 9% ei bod yn 'well ganddynt beidio â dweud')
- Nododd 85% o ymatebwyr unigol eu bod yn annhawsryweddol ac 11% eu bod yn drawsryweddol (atebodd 4% ei bod yn 'well ganddynt beidio â dweud')
- Roedd gan 29% o'r ymatebwyr unigol gredoau crefyddol, ac roedd 6% yn gweithio i sefydliad crefyddol
- Dywedodd 3% o ymatebwyr unigol eu bod yn ymarferwyr meddygol
- Dywedodd 3% o ymatebwyr unigol eu bod wedi profi arferion trosi – pan ofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw brofiad o arferion trosi, dywedodd 3% fod aelod o'r teulu wedi profi arferion trosi

¹ Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi newid ei derminoleg o 'therapi trosi' i 'arferion trosi'. Parheir i ddefnyddio'r term 'therapi trosi' yn yr adroddiad hwn lle mae testun wedi ei ddyfynnu'n uniongyrchol o'r ddogfen ymgynghori neu'r ymatebion, fel arall, yn unol â dewis derminoleg y Llywodraeth erbyn hyn, byddwn yn cyfeirio at 'arferion trosi'.

² Ar gyfer cwestiynau demograffeg a chefnidir, roedd gan yr ymatebwyr hefyd y dewis o beidio ag ateb neu ddewis 'Gwell gen i beidio â dweud'.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd ar ran sefydliadau:

- yn gyffredinol, dywedodd 51% o'r ymatebwyr sefydliadol eu bod yn sefydliadau crefyddol, dywedodd 28% eu bod yn elusennau neu'n sefydliadau trydydd sector, a dywedodd 12% eu bod yn grwpiau cymunedol – at ei gilydd, dywedodd 6% o sefydliadau eu bod yn 'sefydliadau gofal iechyd', neu eu bod wedi'u nodi gan y tîm ymchwil yn sefydliadau sy'n cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol neu mai eu prif bwrpas oedd cynrychioli neu ddarparu llais i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, megis cyrff cynrychioliadol
- Roedd 65% o sefydliadau'n gweithio gyda phobl â chredoau crefyddol, roedd 58% yn gweithio gyda phobl ifanc (16 oed neu hŷn), roedd 54% yn gweithio gyda menywod, roedd 51% yn gweithio gyda phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LHDT), a roedd 50% yn gweithio gyda phlant (gallai sefydliadau ddewis mwy nag un grŵp)
- Roedd gan 46% o sefydliadau 1 i 10 o weithwyr, roedd gan 21% 11 i 49 o weithwyr, roedd gan 12% 50 i 249 o weithwyr, ac roedd gan 12% 250 neu ragor o weithwyr

Mae'r adrannau isod yn rhoi trosolwg o'r canlyniadau meintiol i'r cwestiynau fformat caeedig, yn ogystal â themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r canlyniadau ansoddol i'r cwestiynau testun rhydd fformat agored. Mae pob canran yn ymwneud â chyfanswm nifer yr ymatebion dilys fesul cwestiwn.

Oni nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad at 'llywodraeth' yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r llywodraeth Geidwadol rhwng 2021 a 2024.

Gwahardd gweithredoedd o arferion trosi

Canfu ymgynghoriad 2021-22, gan gyfeirio at y llywodraeth flaenorol, fod 68% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r llywodraeth ymyrryd i roi terfyn ar arferion trosi mewn egwyddor. Roedd ymatebwyr unigol a sefydliadol, yn aml, yn sôn am y niwed corfforol a seicolegol a achosir gan arferion trosi, a allai, yn eu barn nhw, arwain at ganlyniadau andwyol hirdymor a gofid megis iselder a gorbryder. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr unigol, yn enwedig pobl LHDT, nad oedd bod yn LHDT yn rhywbeth anghywir yr oedd angen ei drwsio, tra mynegodd sefydliadau crefyddol ac unigolion â chredoau crefyddol bryder y gallai geiriad presennol y cynigion, pe bai'n cael ei drosglwyddo i ddeddfwriaeth, gyfyngu ar ryddid crefyddol ynghylch gweithgareddau a gynlluniwyd i gefnogi unigolion sy'n cael trafferth gyda'u cyfeiriadedd rhywiol neu a oeddent yn drawsryweddol ai peidio.

Roedd 76% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i fynd i'r afael â gweithredoedd corfforol mewn arferion trosi. Mynegodd ymatebwyr yn aml eu cred bod arferion trosi yn achosi effeithiau sylweddol a hirhoedlog ar iechyd meddwl, a mynegodd llawer o ymatebwyr unigol gefnogaeth dros gynnwys pob math o arferion trosi (gweithredoedd corfforol a gweithredoedd seiliedig ar leferydd neu gymysg) o dan y gwaharddiad. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig gan ddweud bod deddfau eisoes ar waith a oedd yn targedu gweithredoedd corfforol o arferion trosi.

Roedd 61% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynigion a ddisgrifiwyd yn yr ymgynghoriad i gyflwyno trosedd newydd, ac roedd 58% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cosbau arfaethedig. Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw beth wedi'i hepgor o'r cynigion, dywedodd llawer o ymatebwyr unigol, gan gynnwys mwy na hanner yr ymarferwyr

meddygol a'r sefydliadau gofal iechyd, na ddylid cynnwys yr opsiwn i gydsynio neu esemptiadau ar gyfer arferion trosi sy'n digwydd mewn lleoliadau crefyddol. Dywedodd nifer o sefydliadau crefyddol ac unigolion â chredoau crefyddol, yn ogystal â nifer fach o sefydliadau gofal iechyd, fod angen manylion ychwanegol yn y cynigion i egluro na fyddai mynediad at therapïau cyfreithlon wedi ei gyfyngu. Soniodd rhai ymatebwyr hefyd na ddylai'r cynigion gyfeirio at arferion trosi sy'n ceisio newid unigolion i fod yn LHDT, neu y dylai'r cynigion ystyried yn benodol bobl sy'n uniaethu fel arwyliol, aramantaidd, rhyngryw ac anneuaidd, ymhlith eraill.

Offer polisi ychwanegol i roi terfyn ar arferion trosi

Roedd 34% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod Cod Darlledu Ofcom eisoes yn darparu mesurau yn erbyn darlledu a hyrwyddo arferion trosi, ac roedd 31% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylid gwella'r Cod Darlledu drwy egluro'r gwaharddiad ar hyrwyddo arferion trosi a gweithredu mecanweithiau gorfodi cryfach. Roedd rhai ymatebwyr unigol, gan gynnwys pobl LHDT, yn credu nad oedd y Cod Darlledu yn cynnwys safleoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, platfformau ar-lein na rhwydweithiau cymdeithasol lleol a oedd yn hyrwyddo arferion trosi trwy ryngweithiadau preifat. Dywedodd ymatebwyr eraill, gan gynnwys sefydliadau crefyddol, y dylai unrhyw unigolyn allu ceisio a dod o hyd i wybodaeth am therapïau a allai fod o fudd iddynt.

Roedd 12% o'r ymatebwyr yn gwybod am enghreifftiau o ddarlledu yr oeddent yn eu hystyried yn rhai a oedd yn cymeradwyo neu'n hyrwyddo arferion trosi. Roedd yr enghreifftiau mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â sefydliadau cyfryngau neu sefydliadau â sylw yn y cyfryngau a oedd naill ai'n dilysu arferion trosi yn anuniongyrchol neu yn eu barn nhw'n camliwio dysfforia rhywedd³.

Roedd 35% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y codau presennol a osodwyd gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu a'r Pwyllgor Arfer Hysbysebu eisoes yn gwahardd hysbysebu arferion trosi, a 27% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Dywedodd 8% o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod am enghreifftiau o hysbysebion yr oeddent yn eu hystyried yn rhai a oedd yn cymeradwyo neu'n hyrwyddo arferion trosi. Yr enghreifftiau mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd hysbysebion mewn manau cyhoeddus (megis trafndiaeth gyhoeddus) neu ddeunyddiau digymell a ddisbarthir gan elusennau.

Roedd 60% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod bwloch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr arferion trosi, ac roedd 53% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â chynigion yr ymgynghoriad ar gyfer mynd i'r afael â'r bwloch hwn. Nododd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys unigolion a oedd yn gweithio gyda dioddefwyr arferion trosi a sefydliadau a oedd yn gweithio ar ran pobl LHDT, y gallai unigolion neu sefydliadau dramor barhau i gynnig a hyrwyddo arferion trosi, a oedd yn golygu y gallai unigolion barhau i fod yn destun arferion trosi ar ôl iddynt adael y DU (er bod nifer o sefydliadau crefyddol yn anghytuno gan ddweud nad oeddent wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod unigolion yn cael eu cludo dramor ar gyfer arferion trosi heb ganiatâd). Awgrymodd

³ "Mae dysfforia rhywedd yn derm sy'n disgrifio ymdeimlad o anesmwythd y gall person ei gael oherwydd diffyg cydweddiad rhwng eu rhyw biolegol a'u hunaniaeth rhywedd. Gall yr ymdeimlad hwn o anesmwythder neu anffodlonrwydd fod mor ddwys fel y gall arwain at iselder a gorbryder a chael effaith niweidiol ar fywyd bob dydd." ([Gwefan y GIG](#), a gyrchwyd ym mis Ebrill 2023.)

yr ymatebwyr ystod o fecanweithiau gorfodi ychwanegol, a dywedodd rhai y dylai gorchmynion amddiffyn fod ar gael i bobl dros 18 oed yn fwy cyffredinol.

Roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â dull arfaethedig yr ymgynghoriad ar gyfer ymddiriedolwyr elusen a geir yn euog o gyflawni arferion trosi.

Soniodd ymatebwyr yn aml am eu cred na fyddai unigolion sy'n cefnogi arferion trosi yn addas i gyflawni'r ddyletswydd gofal sydd ymhlyg ym mhwrpas a gweithrediadau elusennau. Galwodd rhai ymatebwyr unigol am ganlyniadau cryfach (fel na allai unigolion a oedd wedi'u hanghymhwysio barhau i hyrwyddo arferion trosi mewn gwahanol feysydd dylanwad), a sefydliadau crefyddol ac ymatebwyr â chredoau crefyddol yn aml yn mynegi pryder y gallai'r cynnig gael ei gamddefnyddio oherwydd diffyg manylder yn ei iaith.

Roedd 12% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gwasanaethau statudol eraill yn cymryd camau digonol yn erbyn pobl a allai eisoes fod yn cynnal arferion trosi.

Soniodd llawer o ymatebwyr unigol fod arferion trosi yn dal i fod yn gyffredin o bosibl, a bod angen gwneud mwy o waith i nodi ac olrhain unigolion a sefydliadau sy'n cynnal arferion trosi. Roedd ymatebwyr unigol eraill, yn ogystal â cholegau a phrifysgolion, yn teimlo y gallai gwasanaethau statudol fod yn ei chael hi'n anodd nodi dioddefwyr, yn enwedig os oedd y dioddefwyr yn destun arferion trosi o fewn lleoliadau crefyddol neu deuluol. Dywedodd sefydliadau crefyddol yn aml nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o arferion trosi lle roedd angen gweithredu ond na wnaed hynny.

Roedd 7% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gwasanaethau statudol eraill yn darparu cefnogaeth ddigonol i ddiodeswyr arferion trosi, a chytunodd 63% o'r ymatebwyr y gallai'r 3 sefydliad hyn wneud mwy i gefnogi diodeswyr.

Soniodd yr ymatebwyr am ystod eang o fecanweithiau cymorth posibl, a'r mwyaf cyffredin yn cynnwys cymorth iechyd meddwl arbenigol i helpu i brosesu trawma arferion trosi, addysg a hyfforddiant arbenigol i staff, a mwy o adnoddau ar gyfer atal a monitro. Cododd llawer o ymatebwyr unigol a rhai ymatebwyr sefydliadol bryderon hefyd ynghylch gwahaniaethu posibl yn y ffordd y mae sefydliadau statudol yn trin pobl LHDT, neu nad oedd y sefydliadau hyn yn cymryd diodeswyr arferion trosi o ddifri (gyda chmau cyfyngedig yn cael eu cymryd i erlyn y rhai sy'n cynnal arferion trosi neu i ddarparu cefnogaeth i ddiodeswyr).

1. Cyflwyniad

Lansiwyd ymgynghoriad ar gynigion y llywodraeth flaenorol i wahardd arferion trosi ar 29 Hydref 2021 a daeth i ben 14 wythnos yn ddiweddarach ar 4 Chwefror 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar becyn o fesurau arfaethedig a fyddai'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwaharddiad ar arferion trosi – cyflwyno trosedd newydd ochr yn ochr â chodiadau dedfrydau am droseddau treisgar presennol
- pecyn cymorth i ddioddefwyr, cyfyngu ar hyrwyddo arferion trosi, dileu ffrydiau elw, a chryfhau'r achos dros anghymhwyso rhag dal rôl uwch mewn elusen
- cyflwyno Gorchmynion Diogelu Rhag Arferion Trosi i amddiffyn dioddefwyr posibl rhag mynd trwy'r arfer gan gynnwys dramor
- archwilio mesurau pellach i atal hyrwyddo a hysbysebu arferion trosi

Yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol, disgrifiodd y llywodraeth flaenorol 'therapi trosi' yn "ymgais i newid cyfeiriadedd rhywiol person neu i'w newid i fod yn drawsryweddol neu oddi wrth fod yn drawsryweddol". Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad, mae'r derminoleg wedi newid o 'therapi trosi' i 'arferion trosi', i adlewyrchu'r ffaith fod gweithredoedd trosi yn digwydd ar amrywiaeth o wahanol ffurfiau ac i osgoi eu cymysgu â chymorth therapiwtig cyfreithlon. Parheir i ddefnyddio'r term 'therapi trosi' yn yr adroddiad hwn lle mae testun wedi ei ddyfynnu'n uniongyrchol o'r ddogfen ymgynghori neu gan ymatebwyr, fel arall, mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'arferion trosi'.

Comisiynwyd Alma Economics, ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol, gan y llywodraeth flaenorol yn 2021 i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r dadansoddiad mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd gan y llywodraeth flaenorol yn ystod yr ymgynghoriad. Mae adroddiad arall [\[dolen\]](#), a luniwyd gan yr Hyb Cydraddoldeb yn Swyddfa'r Cabinet, yn edrych yn fanwl ar ymatebion y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a nododd eu bod wedi profi arferion trosi. Yn dilyn newid llywodraeth ym mis Gorffennaf 2024, y Swyddfa Cydraddoldeb a Chyfle yw'r Hyb Cydraddoldeb bellach, a chyfeirir ati fel y cyfryw drwy gydol yr adroddiad hwn.

1.1 Strwythur a fformat yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein y llywodraeth flaenorol ar gynigion i wahardd arferion trosi ar borth Citizen Space y llywodraeth ac roedd yn cynnwys 21 o gwestiynau testun rhydd fformat caeedig a 13 o gwestiynau testun rhydd fformat agored (yn ogystal â 26 o gwestiynau am gefndir a/neu ddemograffeg yr ymatebwyr). Roedd ymatebwyr yn gallu nodi a oeddent yn ymateb yn unigolyn, neu ar ran sefydliad.

Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei darllen o'r ymgynghoriad hefyd, a gellid cyflwyno ymatebion drwy'r platfform ar-lein, Citizen Space, neu'n uniongyrchol i'r Swyddfa dros Gydraddoldeb a Chyfle, drwy'r e-bost (i flwch derbyn pwrpasol ar gyfer yr ymgynghoriad) neu'r post. Mae rhestr lawn o gwestiynau ymgynghori a chategoriâu ymateb caeedig wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

1.2 Prosesu data

Cyfunwyd ymatebion gan Citizen Space, a'r rhai a anfonwyd drwy'r e-bost a'r post, yn un set ddata derfynol a oedd yn cyfuno'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Adolygwyd ymatebion a ddaeth i law drwy'r e-bost neu'r post gan swyddogion yn y Swyddfa dros Gydraddoldeb a Chyfle a'u nodi â llaw yn y set ddata derfynol a'u dadansoddi ochr yn ochr ag ymatebion a gyflwynwyd drwy'r platfform ar-lein. Cafodd pob ymateb ei drin yn gyfartal ni waeth sut y'u cyflwynwyd. Cafodd nifer fach iawn o ymatebion eu haddasu neu eu tynnu os anfonodd yr ymatebydd e-bost yn uniongyrchol at flwch derbyn pwrpasol yr ymgynghoriad i ofyn am hyn. Yn ogystal, yn ystod adolygiad â llaw o'r ymatebion, sgriniodd y tîm ymchwil am yr ymatebion hynny a oedd yn amlwg wedi'u bwriadu i fod yn sarhaus, camdriniol, neu'n hollol ddi-chwaeth. Ni chafodd unrhyw ymatebion eu tynnu o ganlyniad i'r sgrinio hwn.

Nododd y tîm ymchwil chwe set o gwestiynau yr oedd angen ailgodio'r ymatebion ar eu cyfer er mwyn sicrhau bod y dadansoddiad meintiol yn gyson: math o ymatebydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, rhanbarth, a phrofiad o arferion trosi. Trafodir pob un o'r 6 set o gwestiynau yn fanylach isod.

Math o ymatebwr

Roedd cyfanswm o 28,569 o ymatebion dilys i'r ymgynghoriad. Roedd y sampl terfynol yn cynnwys:

- 27,932 o ymatebion dilys gan unigolion
- 628 o ymatebion dilys gan sefydliadau
- 9 ymatebydd wedi'u cynnwys (yn y dadansoddiad o'r *holl* ymatebwyr) na ellid eu priodoli i unigolion na sefydliadau

O'r rhain, dewisodd 22 o ymatebwyr 'Unigolyn' i'r cwestiwn 'A ydych chi'n darparu ymateb unigol neu bersonol neu ymateb ar ran sefydliad?', ond fe wnaethant hefyd ateb y set o gwestiynau am sefydliadau (gan gynnwys enw, math a maint y sefydliad, ymhlith eraill). Mewn 7 achos, roedd y sefydliad wedi cyflwyno ymatebion unigol a sefydliadol ar wahân (yn seiliedig ar ddyblygiadau yn enw'r sefydliad) neu gadawyd enw'r sefydliad yn wag. Yn yr achosion hyn, mae'r tîm ymchwil wedi cadw'r ymatebion hyn wedi'u labelu yn 'Unigolyn', gan ei bod hi'n bosibl bod un ymateb wedi'i gyflwyno gan unigolyn o fewn y sefydliad (yn adlewyrchu barn yr unigolyn) a bod yr ymateb arall wedi'i gyflwyno ar ran y sefydliad cyfan (yn adlewyrchu barn y sefydliad). Ar y llaw arall, yn y 15 achos lle dim ond un ymateb a gyflwynwyd gan y sefydliad, ailgodiwyd yr ymateb hwn o 'Unigolyn' i 'Sefydliad'.

Rhanbarth daearyddol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ym mha ranbarth o Loegr yr oeddent yn byw, neu, os oeddent yn byw y tu allan i Loegr, pa wlad yn y DU. Rhoddodd hyn ddadansoddiad lefel uchel o leoliad yr ymatebwyr. Rhestrododd 6 ymatebydd ysgrifenedig (a gyflwynodd ymatebion y tu allan i borth Gofod y Dinasyddion) 2 ranbarth gwahanol (er enghraifft, 'De-ddwyrain, Gorllewin Canolbarth Lloegr') yn eu hymateb i'r cwestiwn hwn. Gan fod dadansoddiad meintiol wedi'i gynnal ar lefel gwlad, mae'r ymatebion hyn wedi'u hailgodio yn 'Lloegr'.⁴

⁴ Roedd 2 ymatebydd wedi cynnwys un rhanbarth yn Lloegr ac "Y tu allan i'r DU" yn eu hymatebion. Gan fod yr ymatebwyr hyn wedi nodi'n benodol yn eu hymatebion i gwestiynau eraill eu bod wedi'u lleoli yn Lloegr, teimlai'r tîm ymchwil mai ail-godio'r ymatebion hyn yn

Sefydliadau gofal iechyd ac ymarferwyr meddygol

Unigolion

Fel rhan o gasglu data ar gefndir yr ymatebwyr, gofynnwyd i unigolion dicio blwch os oeddent yn ymarferydd meddygol a oedd yn cynorthwyo unrhyw un a oedd yn cwestiynu a oedd yn LHDT. At ei gilydd, atebodd 927 o ymatebwyr 'Ydw' i'r cwestiwn hwn. Cyflwynir ymatebion meintiol ar gyfer yr ymatebwyr hyn yn Atodiad B.

Sefydliadau

Ni wnaeth rhai sefydliadau â phrofiad neu arbenigedd gofal iechyd perthnasol nodi eu bod yn 'sefydliadau gofal iechyd' yn yr ymgynghoriad. Er mwyn casglu barn gyfunol ymatebwyr sefydliadol y gallai fod ganddynt fewnwelediad unigryw ar arferion trosi o safbwynt gofal iechyd, creodd y tîm ymchwil sampl newydd.⁵

Adolygwyd enwau pob sefydliad â llaw gan y tîm ymchwil, a nodwyd sefydliadau gofal iechyd (yn seiliedig ar chwiliad Google ac adolygiad o dudalen we 'Amdanom' ar-lein y sefydliad). Mae'r sampl olaf o 'sefydliadau gofal iechyd' yn cynnwys sefydliadau sydd naill ai:

- yn nodi eu hunain eu bod yn 'sefydliadau gofal iechyd'
- wedi eu nodi gan y tîm ymchwil yn sefydliadau sy'n cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol neu mai eu prif bwrpas oedd cynrychioli neu ddarparu llais i weithwyr gofal iechyd proffesiynol

At ei gilydd, nodwyd 40 o sefydliadau gofal iechyd gan ddefnyddio'r diffiniad hwn. O'r rhain, dim ond 18 a nododd eu bod yn sefydliad gofal iechyd. Fel arsylwad cyffredinol, roedd barn y sefydliadau gofal iechyd a sefydliadau gofal iechyd a hunan-adnabyddwyd a nodwyd gan y tîm ymchwil yn debyg iawn.

Mae dadansoddiad ansoddol o ymatebion a ddarparwyd gan y rhai a nododd eu bod yn ymarferwyr meddygol ac a nodwyd yn 'sefydliadau gofal iechyd' wedi'i gynnwys ar gyfer cwestiynau ymgynghori allweddol sy'n berthnasol i faterion gofal iechyd, yn enwedig Cwestiynau 1 i 4 a 14. Roedd barn y ddau fath hyn o ymatebwyr meddygol neu ofal iechyd yn aml yn cyd-fynd neu'n mynd i'r afael â themâu tebyg. O ganlyniad, maent wedi cael eu dadansoddi ar y cyd. Mae'r adrannau hyn o'r adroddiad wedi cael y teitl 'Ymatebion gan sefydliadau gofal iechyd ac ymarferwyr meddygol hunan-adnabyddwyd'.

Cyfeiriadedd rhywiol

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu cyfeiriadedd rhywiol gyda'r un dull ag a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr. Rhoddodd hyn opsiynau caeedig i ymatebwyr neu'r cyfle i nodi sut y maent yn cyfeirio at eu cyfeiriadedd rhywiol mewn maes testun rhydd. Ar gyfer y dadansoddiad meintiol, ail-godiwyd yr holl ymatebion testun rhydd ar gyfer y cwestiwn hwn fel 'Cyfeiriadedd rhywiol arall'.

Hunaniaeth rhywedd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hunaniaeth rhywedd gan ddefnyddio'r fersiwn diweddaraf o safon

"Lloegr" oedd y mwyaf cywir. Gan mai dim ond i nifer fach iawn o ymatebwyr yr oedd hyn yn berthnasol, ni chafodd y dewis o wlad ar gyfer ailgodio effaith ar y dadansoddiad cyffredinol o'r canlyniadau ar lefel gwlad a gyflwynwyd yn yr adroddiad.

⁵ Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr sefydliadol ddewis math o sefydliad a oedd yn adlewyrchu eu sefydliad orau, gyda chategoriâu perthnasol yn cynnwys "darparwr gofal iechyd cyffredinol" a "darparwr gofal iechyd arbenigol LHDT".

data wedi'i chysoni 'sy'n cael ei datblygu' gan Wasanaethau Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer hunaniaeth rhywedd.⁶ Gofynnodd hyn i'r ymatebwyr: "A yw'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd ar eich cyfer adeg eich geni?" Pe byddent yn dewis 'Nac ydy', gallent wedyn nodi eu hunaniaeth rhywedd mewn maes testun rhydd. Cafodd yr ymatebion testun rhydd hyn eu hail-godio i ddau gategori: 'Trawsryweddol' a 'Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni ond ni roddwyd hunaniaeth benodol'. Mae'r categori Trawsryweddol yn cynrychioli ymatebwyr a nododd mai eu hunaniaeth rhywedd, er enghraifft, oedd 'Dyn traws', 'Menyw draws', neu'n 'Anneuaidd' (gan gynnwys hunaniaethau eraill fel 'Rhyweddhylifol'). Ni wnaeth nifer fach o ymatebwyr a atebodd 'Nac ydy' pan ofynnwyd iddynt a oedd y rhywedd yr oeddent yn uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni, ddarparu hunaniaeth rhywedd benodol. Oherwydd bod mwy o ansicrwydd ynghylch sut i gategoreiddio hunaniaeth rhywedd yr ymatebwyr hyn, at ddibenion y dadansoddiad hwn, ail-godiwyd yr ymatebion hyn fel 'Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg ei eni ond ni roddwyd hunaniaeth benodol' a chawsant eu heithrio o'r dadansoddiad meintiol ar hunaniaeth rhywedd.⁷

Profiadau o arferion trosi

Gofynnwyd i ymatebwyr unigol a oeddent erioed wedi cael profiad o arferion trosi. Os oeddent wedi gwneud hynny, dilynodd sawl cwestiwn pellach am eu profiad. Roedd y rhain yn cynnwys pwy a gyflawnodd yr arfer trosi, pa oedran oedd yr ymatebydd pan gyflawnwyd yr arfer trosi, ble y cyflawnwyd yr arfer trosi, a oedd yr arfer trosi wedi'i anelu at gyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, nid y naill na'r llall, neu'r ddau, a pha ffurf a gymerodd yr arfer trosi.

At ei gilydd, nododd 820 o ymatebwyr eu bod erioed wedi profi arferion trosi. Roedd 10 o ymatebwyr a atebodd 'Nac ydw', 'Efallai/ddim yn gwybod', neu 'Gwell gen i beidio â dweud' pan ofynnwyd iddynt a oeddent erioed wedi profi arferion trosi, ac a roddodd atebion i un neu fwy o gwestiynau am eu profiad o arferion trosi. Mae'r ymatebwyr hyn wedi'u heithrio o'r dadansoddiad o brofiadau penodol o arferion trosi, o ystyried bod rhywfaint o ansicrwydd yn eu hymateb ynghylch a oeddent wedi profi arferion trosi yn y lle cyntaf ai peidio. Mae adroddiad sy'n dadansoddi'r data hwn sy'n ymwneud â phrofiadau o arferion trosi ar gyfer yr is-sampl hwn o ymatebwyr wedi'i gyhoeddi gan y Swyddfa dros Gydraddoldeb a Chyfle. [\[dolen\]](#)

1.3 Ymatebion ymgyrchoedd a dileu dyblygiadau

Fel sy'n arferol ar gyfer ymgyngoriad y llywodraeth ar raddfa fawr, fe wnaeth nifer o ymgyrchoedd a drefnwyd gan grwpiau neu unigolion gydlynu ymatebion i'r ymgyngoriad hwn. Er y gellid nodi ymatebion i gwestiynau ansoddol fel rhai tebyg neu union, mae'n anodd nodi'n gadarn a ddaeth ymatebion dyblyg o ymgyrchoedd, neu gan unigolion a/neu grwpiau a ymgyngorodd â'i gilydd yn anffurfiol cyn cyflwyno eu hymatebion. Mae'n werth nodi nad oedd unrhyw glwstwr sengl o

⁶ Mae rhagor o fanylion am safon data a gysonwyd Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer hunaniaeth rhywedd ar gael yn: <https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/gender-identity/>

⁷ Mae mesur hunaniaeth rhywedd yn bwnc sy'n esblygu. Datblygwyd y categorïau dadansoddol ar gyfer dadansoddi'r ymatebion i'r ymgyngoriad yn ôl hunaniaeth rhywedd cyn dadansoddi a rhyddhau data hunaniaeth rhywedd hunan-adnabod o Gyfrifiad 2021 ym mis Ionawr 2023. Roedd y categorïau hunaniaeth rhywedd a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn yn debyg i rai Cyfrifiad Ionawr 2023. Yn 2024, cyhoeddodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau [adolgyiad o ddata hunaniaeth rhywedd Cyfrifiad 2021](#), a chanfu fod problemau ansawdd gyda'r cwestiwn a'r data. Wedi hynny, israddiwyd data hunaniaeth rhywedd y Cyfrifiad i 'ystadegau swyddogol ac yn cael eu datblygu', ac ers hynny mae Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth wedi cyhoeddi rhaglen waith i ddatblygu safonau terfynol wedi'u chysoni ar gyfer data hunaniaeth rhywedd.

ymatebion cyfatebol yn fwy nag 1% o'r set ddata gyfan, ac yn aml ni wnaeth grwpiau o ymatebwyr a gyflwynodd ymatebion dyblyg i un cwestiwn gyflwyno ymatebion dyblyg i gwestiwn arall. Mae hyn yn awgrymu bod canlyniadau'r ymgynghoriad yn adlewyrchu barn amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion yn hytrach na bod yn ymgyrchoedd penodol yn bennaf. Oherwydd meintiau bach y samplau o ymatebion ymgyrchoedd posibl ac er mwyn sicrhau bod pob ymateb yn cael ei ystyried, ni chafodd ymatebion a oedd yn debyg neu'n union yr un peth eu tynnu o'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

1.4 Dull dadansoddi meintiol

Cynhaliwyd dadansoddiad disgrifiadol ar yr ymatebion i'r 21 cwestiwn fformat caeedig gan ddefnyddio Python. Mae prif gorff yr adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion i bob cwestiwn ymgynghori yn ôl math o ymatebydd (unigolyn neu sefydliad) a set o newidynnau demograffig. Mae pob cwestiwn yn cynnwys siart sy'n crynhoi ymatebion fel canran o'r holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad a atebodd y cwestiwn drwy ddewis un o'r opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys 'Gwell gen i beidio â dweud'. Cyflwynir tablau llawn o ganlyniadau wedi'u dadansoddi yn ôl demograffeg allweddol yn Atodiad B. Mae data coll neu na ellir ei godio wedi'i dynnu o'r cronfeydd.

Pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriad gyntaf, roedd y cwestiwn cyntaf ('A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth ymyrryd i ddod â therapi trosi i ben mewn egwyddor?') yn cynnwys un set o ddewisiadau ateb dyblyg (cynhwyswyd 'cytuno'n gryf' ddwywaith ar gam yn lle 'anghytuno'n gryf'). Cywirwyd y categorïau ymateb pan ddaethpwyd â nhw i sylw'r Hyb Cydraddoldeb ar ôl tua chwe awr. Gan nad yw'n bosibl pennu pa rai o'r ymatebwyr i'r cwestiwn gwreiddiol oedd yn bwriadu ateb 'anghytuno'n gryf', mae cyfanswm o 800 o ymatebion (dim ond pedwar ohonynt oedd yn ymatebion sefydliadol) wedi'u tynnu o ddadansoddiad y cwestiwn hwn. Mae hyn yn cynrychioli llai na 3% o'r holl ymatebion unigol ac 1% o'r holl ymatebion sefydliadol i'r cwestiwn penodol hwn ac ni fyddai wedi effeithio ar y canlyniadau cyffredinol.⁸ Dyma'r unig gwestiwn yr effeithiwyd arno gan y mater hwn, ac mae'r 800 o ymatebwyr wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau ar gyfer pob cwestiwn ymgynghori arall.

1.5 Dull dadansoddi ansoddol

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 13 o gwestiynau agored gyda meysydd testun rhydd, ac nid oedd terfyn ar faint o destun y gallai ymatebwyr ei ysgrifennu yn eu hatebion. I ddadansoddi'r ymatebion hyn, dilynodd y tîm ymchwil ddull a gyfunodd godio â llaw ac awtomataidd oherwydd y swm sylweddol o ddata i'w adolygu (roedd rhai ymatebion i un cwestiwn bron 5,000 o eiriau o hyd). Yn fras, roedd y dull a gymerwyd i ddadansoddi'r ymatebion ansoddol yn cynnwys 4 cam: datblygu llyfr cod o themâu, codio â llaw cychwynnol, dadansoddiad testun integredig â llaw ac awtomataidd, a dadansoddiad thematig. Mae rhagor o fanylion am y dull hwn wedi'u nodi yn Atodiad C.

Mae prif gorff yr adroddiad hwn yn dilyn yr un drefn o ran cwestiynau â'r ddogfen ymgynghori, a chyflwynir themâu ar gyfer pob cwestiwn fformat agored yn nhrefn amllder (nifer yr ymatebion sy'n

⁸ Fe wnaethon ni ddadansoddi effaith tynnu'r 800 ymateb hyn o'r gronfa a chanfod bod cyfran gymharol yr ymatebion wedi newid llai nag 1% ar gyfer unrhyw ddewis ateb penodol.

trafod y thema). Yn gyffredinol, ar gyfer y dadansoddiad ansoddol:

- Mae 'llawer' neu 'nifer fawr' yn dangos bod 15% i 50% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn agored wedi crybwyll y thema benodol
- Mae 'rhai' neu 'nifer o' yn dynodi bod 5% i 15% o'r ymatebwyr wedi nodi'r thema
- Mae 'sawl', 'ychydig', neu 'nifer fach' yn dynodi bod llai na 5% o'r ymatebwyr wedi nodi'r thema

Mae'r ystodau'n amrywio yn ôl cwestiwn gan y gall dosbarthiad themâu ar draws ymatebion amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, mae gan rai cwestiynau nifer llai o themâu amlwg yn yr ymatebion, ac mae cwestiynau eraill yn cynnwys llawer o themâu gwahanol a grybwyllwyd gan ymatebwyr.

Yn y dadansoddiad ansoddol, mae'r tîm ymchwil wedi ceisio adlewyrchu'n briodol yr ystod lawn o emosiynau, safbwyntiau a chanfyddiadau a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Defnyddiwyd dyfyniadau unigol, lle bo'n briodol, i ddangos themâu penodol. Dim ond gan ymatebwyr a roddodd ganiatâd penodol i gyhoeddi eu barn yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y dewiswyd dyfyniadau, a chan ddileu unrhyw ddynodwyr posibl (megis enw sefydliad penodol).

1.6 Cyfyngiadau

Er bod y dadansoddiad meintiol ac ansoddol a gyflwynwyd yn yr adroddiad wedi ceisio casglu'r ystod eang o farn a safbwyntiau ar draws yr ymatebion a gyflwynwyd, mae nifer o gyfyngiadau posibl i'w hystyried.

- Efallai nad yw unrhyw wybodaeth a ddyfynnir mewn dyfyniadau yn gywir ac nad yw wedi'i dilysu na'i gwirio'n gywir. Yn hytrach, mae'r dyfyniadau'n cynrychioli, a dylid eu trin fel, *safbwyntiau neu brofiadaugoddrychol* yr ymatebwyr yn unig, yn hytrach na fel gwybodaeth ffeithiol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi enghreifftiau o hysbysebu a darlledu 'therapi trosi'. Diffiniodd yr ymgynghoriad 'therapi trosi' yn "ymgais i newid cyfeiriadedd rhywiol person neu i'w newid i fod yn drawsryweddol neu oddi wrth fod yn drawsryweddol" a allai fod wedi arwain at ddehongliad eang gan ymatebwyr o'r diffiniad o arferion trosi. Nid yw unrhyw enghreifftiau a ddarparwyd gan ymatebwyr wedi cael eu gwirio gan y tîm ymchwil ynghylch i ba raddau y maent yn bodloni diffiniad yr ymgynghoriad na'r ddeddfwriaeth arfaethedig.
- Yn gyffredinol, mae'n annhebygol y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion a sefydliadau yn gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach nac unrhyw grŵp demograffig penodol oherwydd natur hunan-ddewisol yr ymatebwyr.
- Ni allai'r tîm ymchwil wirio a gyflwynwyd yr holl ymatebion a oedd yn nodi eu bod yn sefydliadau mewn rhinwedd swyddogol.
- Nid oedd rhai o'r ymatebion yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad (sef ffocws yr adroddiad hwn, gan gynnwys yr adrannau dadansoddiad ansoddol) nac yn berthnasol iddynt.

1.7 Strwythur yr adroddiad

Ar y dechrau mae'r adroddiad yn nodi manylion am y sampl o ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Dilyniir hyn gan benodau sy'n ymdrin â phob un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae pob pennod yn cynnwys canfyddiadau'r dadansoddiad meintiol, ac wedyn y dadansoddiad ansoddol o atebion

testun rhydd yr ymatebwyr.

Mae Pennod 6 yn tynnu sylw at themâu trawsbynciol, y mae cyfran nodedig o ymatebwyr wedi codi pwyntiau tebyg ar eu cyfer, ar draws nifer o gwestiynau. Mae'r rhain wedi'u crynhoi i sicrhau cyn lleied o ailadrodd ag y bo modd rhwng penodau.

2. Trosolwg o'r ymatebion a dderbyniwyd

2.1. Cyfanswm yr ymatebion

Roedd yr ymgynghoriad ar agor i bawb a derbyniwyd 28,569 o ymatebion dilys, naill ai drwy'r platfform ar-lein Citizen Space neu drwy'r e-bost neu'r post. Cyflwynwyd y mwyafrif llethol o ymatebion (96%) drwy Citizen Space, tra cyflwynwyd 4% o ymatebion drwy'r e-bost a 5 ymateb drwy'r post.

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oeddent yn ymateb fel unigolyn neu fel sefydliad. Mae'r ymatebion hyn wedi cael eu derbyn ar eu gwerth wyneb. Nhw yw sail y dadansoddiad o ymatebion unigol a sefydliadol.

At ei gilydd, cyflwynwyd 27,932 o ymatebion dilys gan unigolion a 628 o ymatebion dilys gan sefydliadau. Ni wnaeth cyfanswm o 9 ymatebydd nodi eu bod yn unigolyn nac yn sefydliad, ac o ganlyniad maent wedi'u heithrio o'r dadansoddiad unigol a sefydliad yn y dadansoddiad meintiol ond yn hytrach wedi'u cynnwys o dan 'Pob ymatebydd'.

2.2. Proffil yr ymatebwyr unigol

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd sawl cwestiwn i'r rhai a nododd eu bod yn unigolion yn hytrach na'r rhai a ymatebodd ar ran sefydliadau am eu demograffeg a'u cefndir:

- Dywedodd 84% o ymatebwyr unigol eu bod wedi'u lleoli yn Lloegr, 4% yng Nghymru, 6% yn yr Alban, 3% yng Ngogledd Iwerddon, a 2% o'r tu allan i'r DU
- Roedd dadansoddiad oedran yr ymatebwyr unigol fel a ganlyn: roedd 3% rhwng 16 a 17 oed, 12% rhwng 17 a 18 oed, 21% rhwng 25 a 34 oed, 17% rhwng 35 a 44 oed, 15% rhwng 45 a 54 oed, 15% rhwng 55 a 64 oed, 12% rhwng 65 a 74 oed, ac roedd 5% yn 75 oed a throsodd
- nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unigol eu bod yn wyn (87%), ac wedyn y rhai o grŵp ethnig cymysg (3%), Asiaidd (3%), du (2%), a'r rhai o grwpiau ethnig eraill (1%) – ni wnaeth 5% o ymatebwyr unigol ateb y cwestiwn hwn
- Nododd 48% o ymatebwyr unigol nad oeddent yn dilyn unrhyw grefydd, tra bod 40% o ymatebwyr unigol yn nodi eu bod yn Gristnogion – dewisodd 6% o ymatebwyr unigol 'Gwell gen i beidio â dweud'
- Nododd 45% o'r ymatebwyr unigol eu bod yn syth/heterorywiol, nododd 23% eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd, nododd 15% eu bod yn ddeurywiol, a nododd 7% eu bod yn 'Cyfeiriadedd rhywiol arall' – dewisodd 9% 'Gwell gen i beidio â dweud'
- Nododd 85% o ymatebwyr unigol nad ydynt yn drawsryweddol, 11% eu bod yn drawsryweddol, a dewisodd 4% 'Gwell gen i beidio â dweud'
- gofynnwyd i ymatebwyr unigol hefyd a oeddent wedi cael profiadau perthnasol i'r ymgynghoriad a gallent dicio blwch os, er enghraifft, oedd ganddynt aelod o'r teulu a oedd

wedi dioddef arferion trosi – yn gyffredinol, nododd 3% o ymatebwyr unigol fod ganddyn nhw aelod o'r teulu a oedd wedi profi arferion trosi

- nododd 3% o ymatebwyr unigol eu bod wedi profi arferion trosi – o'r rhain, nododd 68% fod yr arfer trosi wedi'i anelu at newid eu cyfeiriadedd rhywiol, nododd 13% ei fod wedi'i anelu at newid a oeddent yn drawsryweddol ai peidio, a nododd 12% ei fod wedi'i anelu at newid eu cyfeiriadedd rhywiol ac a oeddent yn drawsryweddol ai peidio
- nododd 2% o ymatebwyr unigol eu bod wedi gweithio gyda dioddefwyr arferion trosi, a nododd 3% o ymatebwyr unigol eu bod wedi gweithio gyda sefydliadau a oedd â phrofiad o arferion trosi
- nododd 7% o ymatebwyr unigol eu bod yn gweithio gyda sector elusennol LHDT
- Nododd 29% o ymatebwyr unigol fod ganddynt gredoau crefyddol, a nododd 6% eu bod yn gweithio i sefydliad crefyddol
- nododd 3% o ymatebwyr unigol eu bod yn ymarferwyr meddygol a oedd yn cefnogi unrhyw un a oedd yn cwestiynu a oeddent yn LHDT

2.3. Proffil ymatebwyr sefydliadol

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr a nododd eu bod yn ateb ar ran sefydliad ateb sawl cwestiwn am eu sefydliad. Sylwer nad oes unrhyw ymgais wedi'i gwneud i wirio bod y sefydliadau hyn fel y'u disgrifiwyd gan yr ymatebydd.

- Nododd 51% o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu bod yn sefydliadau crefyddol, 28% yn elusennau neu'n sefydliadau trydydd sector, a 12% yn grwpiau cymunedol – cafwyd ymatebion hefyd gan 6 sefydliad a nododd eu bod yn perthyn i'r llywodraeth ganolog neu leol, 12 ymateb gan sefydliadau a nododd eu bod yn sefydliadau addysgol (ysgolion, colegau neu brifysgolion), tri ymateb gan sefydliadau a nododd eu bod yn sefydliadau cyfiawnder troseddol, 16 ymateb gan sefydliadau a nododd eu bod yn gyrrff proffesiynol, 23 ymateb gan sefydliadau a nododd eu bod yn fusnesau preifat, ac un ymateb gan sefydliad a nododd eu bod yn gweithio ym maes hysbysebu – at ei gilydd, cafwyd 40 ymateb gan sefydliadau a ddewisodd 'Arall' neu 'Gwell gen i beidio â dweud' pan ofynnwyd iddynt pa fath o sefydliad oeddent.
- Dosbarthwyd 6% o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn 'sefydliadau gofal iechyd' – mae'r grŵp hwn yn cynnwys y rhai a nododd eu bod yn 'sefydliadau gofal iechyd' (3%), neu'r rhai a nodwyd gan y tîm ymchwil yn sefydliadau sy'n cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol neu a oedd â'r prif bwrpas o gynrychioli neu ddarparu llais i weithwyr gofal iechyd proffesiynol (3%).
- Dywedodd 65% o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu bod yn gweithio gyda phobl â chredoau crefyddol, roedd 58% yn gweithio gyda phobl ifanc (16 oed neu hŷn), roedd 54% yn gweithio gyda menywod, roedd 51% yn gweithio gyda phobl LHDT, a 50% yn gweithio gyda phlant (gallai sefydliadau ddewis mwy nag un grŵp) – dewisodd 7% o sefydliadau 'Dim o'r uchod'.
- Dywedodd 20% o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu bod yn gweithio ym mhob un o bedair gwlad y DU (gallai sefydliadau ddewis mwy nag un wlad) – roedd 85% o'r sefydliadau'n gweithio yn Lloegr, roedd 27% yn gweithio yn yr Alban, roedd 26% yn

gweithio yng Nghymru, roedd 24% yn gweithio yng Ngogledd Iwerddon, a nododd 15% eu bod yn gweithredu y tu allan i'r DU (gyda 91% o'r sefydliadau hyn hefyd yn gweithredu o fewn y DU).

- Dywedodd 46% o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad fod ganddynt 1 i 10 o weithwyr, roedd gan 21% 11 i 49 o weithwyr, roedd gan 12% 50 i 249 o weithwyr, a bod gan 12% 250 neu fwy o weithwyr.

3. Gwahardd gweithredoedd o arferion trosi

3.1. Barn ar wahardd arferion trosi

Cwestiwn ymgynghori trosfwaol

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth ymyrryd i roi terfyn ar therapi trosi mewn egwyddor?

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	61%	37%	60%
Cytuno rhywfaint	8%	8%	8%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	10%	20%	10%
Anghytuno rhywfaint	3%	7%	4%
Anghytuno'n gryf	13%	21%	13%
Gwell gennyf beidio â dweud	4%	7%	4%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Sylwer: Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- gan gyfeirio at y llywodraeth flaenorol, roedd dros ddwy ran o dair (68%) o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r llywodraeth ymyrryd i roi terfyn ar arferion trosi mewn egwyddor, nid oedd 10% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 17% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf
- roedd unigolion yn fwy tebygol na'r ymatebwyr sefydliadau o gytuno neu gytuno'n gryf y dylai'r llywodraeth ymyrryd i roi terfyn ar arferion trosi mewn egwyddor (69% o'i gymharu â 45%)
- roedd ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi yr un mor debygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu ag ymatebwyr a ymatebodd nad oeddent wedi gwneud hynny (74% o'i gymharu â 71%)
- roedd ymatebwyr â chefnidir crefyddol yn llawer llai tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i

gymharu ag ymatebwyr heb gefndir crefyddol (35% o'i gymharu â 83%)⁹

- roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn ymarferwyr meddygol yn fwy tebygol o gefnogi'r cynigion o'i gymharu â'r rhai na wnaeth (80% o'i gymharu â 65%)
- roedd ymatebwyr syth/heterorywiol yn llai tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu ag ymatebwyr LGB+ (49% o'i gymharu â 97%)¹⁰
- Roedd 99% o ymatebwyr trawsryweddol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf o'i gymharu â 66% o ymatebwyr annhrawsryweddol
- Roedd 72% o sefydliadau mawr (250 o bobl neu fwy) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r llywodraeth ymyrryd i roi terfyn ar arferion trosi mewn egwyddor, tra bod 41% o sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl yn cytuno neu'n cytuno'n gryf

Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o ddadansoddiad ansoddol o ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag:

- niwed corfforol a seicolegol
- goblygiadau anghywir ynghylch cyfeiriadedd rhywiol
- effeithiau canfyddedig ar ryddid crefyddol
- cwnsela a therapiau cyfreithlon

Dadansoddiad thematig

Trafodir y themâu allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad ansoddol yn fanylach isod. Fe'u cyflwynir yn nhrefn pa mor aml y cawsant eu codi gan ymatebwyr, ac amlygir unrhyw wahaniaethau rhwng ymatebwyr unigol a sefydliadau.

Thema 1: Niwed corfforol a seicolegol

Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr unigol a sefydliadol oedd eu bod yn teimlo bod arferion trosi yn achosi niwed corfforol a seicolegol, a allai, yn eu barn nhw, arwain at ganlyniadau andwyol hirdymor a gofid, yn enwedig iselder, gorbryder a syniadau hunanladdol. Nododd yr ymatebwyr hyn eu bod yn credu bod niweidiau arferion trosi yn aml yn cael eu hwyluso neu eu galluogi gan deuluoedd a chymunedau. O ganlyniad, roeddent yn teimlo y byddai arferion trosi yn cael effaith negyddol sylweddol ar blant ac unigolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn benodol.

Mae arferion trosi neu therapi atgyweirio, a phob ymdrech arall i newid cyfeiriadedd rhywiol fel y'i gelwir, yn cael eu condemnio'n briodol gan gyrff iechyd meddwl, cwnsela a seicotherapi uchel eu parch ledled y byd fel rhai anfoesegol a niweidiol i'r bobl sy'n destun yr arferion hyn. Mae yna lawer o wahanol fathau o therapi trosi, a gallant ddigwydd ym mhob math o amgylcheddau, o rai crefyddol, i seicolegol neu seiciatrig. Mae niwed sylweddol yn gysylltiedig ag arferion trosi gan gynnwys risg uwch o iselder, gorbryder, syniadau hunanladdol, ac ymdrechion hunanladdol. (Sefydliad sy'n gweithio ar ran pobl LHDT, pobl â chredoau crefyddol a menywod, dim manylion pellach am y maint a ddarparwyd)

⁹ Cofnodir y newidyn hwn fel 'Ydw' os nododd yr ymatebydd fod ganddo brofiad o weithio i sefydliad ffydd neu fod ganddo gredoau crefyddol (neu'r ddau). Os na chyflawnir y naill faen prawf na'r llall, cofnodir y newidyn fel 'Nac ydw'.

¹⁰ Mae ymatebwyr LGB+ yn cyfeirio at ymatebwyr unigol a ddewisodd 'hoyw neu lesbiaidd', 'deurywiol', neu 'gyfeiriadedd rhywiol arall' (wedi'i nodi mewn maes testun rhydd) pan ofynnwyd iddynt am eu cyfeiriadedd rhywiol.

Thema 2: Goblygiadau anghywir am gyfeiriadedd rhywiol

Roedd llawer o ymatebwyr unigol, yn enwedig ymatebwyr LHDT a'r rhai â phrofiad o arferion trosi, yn anghytuno â 2 dybiaeth yr oeddent yn teimlo eu bod yn ymhlyg mewn arferion trosi: yn gyntaf, y gellid newid cyfeiriadedd rhywiol:

“Mae therapi trosi - unrhyw ymgais i newid rhywioldeb neu hunaniaeth rhywedd - yn peryglu niwed meddyliol difrifol i unigolyn am ei fod yn creu anghysondeb mewn nodweddion biolegol caled a'u mynegiant.” (Unigolyn, 45 i 54 oed, di-grefydd, syth/heterorywiol, nad yw'n drawsryweddol)

Ac yn ail, roedd bod yn LHDT yn arwydd bod rhywbeth o'i le yr oedd angen ei drwsio:

“Mae therapi trosi yn weithred sydd wedi'i seilio'n sylfaenol ar gred afresymol a dinistriol bod cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd rhywun yn rhywbeth y mae angen ei 'drwsio'.” (Unigolyn, 18 i 24 oed, Cristion, annhrawsryweddol)

Nododd yr ymatebwyr hyn nad oedd cyfeiriadedd rhywiol yn ddewis ac felly nad oedd yn bosibl ei newid trwy unrhyw ymyrraeth allanol, a bod y canfyddiad o fod yn LHDT yn rhywbeth 'anghywir' wedi arwain at niwed emosiynol a chreulondeb pellach. Yn benodol, pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn nad oedd unrhyw sail wyddonol yn ôl pob golwg dros arferion trosi ac nad oedd mwyafrif yr unigolion a oedd yn destun arferion trosi wedi newid eu cyfeiriadedd rhywiol. Yn gyffredinol, nid oedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn gwahaniaethu rhwng arferion trosi sydd wedi'u hanelu at gyfeiriadedd rhywiol ac arferion trosi sydd wedi'u hanelu at hunaniaeth rhywedd.

Thema 3: Effaith ganfyddedig ar ryddid crefyddol

Fe wnaeth ymatebwyr unigol a sefydliadau fynegi pryder y gallai geiriad presennol y cynigion, pe bai'n cael ei droi'n ddeddfwriaeth, arwain at gyfyngiadau difrifol ar ryddid crefyddol ynghylch gweddi mewn grŵp a thrafodaethau ysbrydol cydsyniol. Rhannwyd y farn hon yn bennaf ymhlith pobl a nododd fod ganddynt gredoau crefyddol neu eu bod yn gweithio gyda sefydliadau crefyddol, a chynigiodd llawer o'r ymatebwyr hyn y dylid esemptio sefydliadau crefyddol rhag gwaharddiad.

Yn benodol, roedd rhai sefydliadau crefyddol o'r farn, o dan y cynigion newydd, na fyddent bellach yn gallu darparu cymorth, gan gynnwys gweddi na chwmsela ysbrydol, i unigolion a oedd yn cael trafferth gyda'u cyfeiriadedd rhywiol neu a oeddent yn drawsryweddol ai peidio, ac o ganlyniad, byddai unigolion a geisiai gymorth yn cael eu hynysu ymhellach.

“Rydw i wedi gweld hysbyseb ddwywaith ar gerbyd hacni yn Llundain a Chaerdydd yn hyrwyddo'r therapi ond mewn ffordd gynnil.” (Unigolyn, 25 i 34 oed, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Disgrifiodd yr ymatebwyr yr ymgyrchoedd hyn hefyd gan ddefnyddio taflenni, byrddau hysbysebu, gweithgarwch o ddrws i ddrws, neu bobl yn siarad yn uchel (trwy fegaffon neu feicroffon) i gyfleu eu negeseuon.

“Mae yna fyrdau hysbysebu sy'n ymddangos ar strydoedd Llundain ynglŷn â therapi trosi.” (Unigolyn, 18 i 24 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

4.2. Diogelu pobl rhag arferion trosi dramor

Cwestiynau a drafodir yn yr adran hon

Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn ymwneud â chynnig blaenorol y llywodraeth i gyflwyno Gorchmynion Diogelu rhag Arferion Trosi, a oedd yn nodi rhai amodau i amddiffyn person rhag mynd trwy arferion trosi. Gallai'r rhain gynnwys tynnu'r pasbort neu'r dull teithio oddi ar y person i'w amddiffyn (dan amgylchiadau eithafol yn unig i bobl dros 18 oed) fel nad ydynt yn cael eu gorfodi na'u cymell i fynd dramor i dderbyn arferion trosi yn ogystal ag unrhyw ofyniad arall y mae'r llys yn ystyried bod ei angen i amddiffyn y person y gwneir y gorchymyn i'w amddiffyn.

Cwestiwn 9

Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio cynigion i gyflwyno gorchmynion amddiffyn therapi trosi i fynd i'r afael â bwllch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr yr ymarfer. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod bwllch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr therapi trosi?

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	49%	31%	49%
Cytuno rhywfaint	11%	7%	11%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15%	19%	15%
Anghytuno rhywfaint	4%	8%	4%
Anghytuno'n gryf	9%	13%	9%
Gwell gennyf beidio â dweud	12%	21%	12%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Sylwer: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- bod 3 o bob 5 ymatebydd (60%) I'r cwestiwn hwn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod bwllch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr arferion trosi, nad oedd 15% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno, roedd 13% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, a dewisodd y 12% a oedd yn weddill 'Gwell gennyf beidio â dweud'.
- bod unigolion yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf na sefydliadau (60% o'i gymharu â 39%)
- roedd ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu ag ymatebwyr a ymatebodd nad oeddent wedi'u cael (68% o'i gymharu â 62%)
- bod ymatebwyr heb gefndir crefyddol ddwywaith yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf bod bwllch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr arferion trosi o'i gymharu â'r rhai â chefnidir crefyddol (72% i 31%)

- bod ymatebwyr oedd yn ymarferwyr meddygol yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu â'r rhai nad oeddent (71% o'i gymharu â 60%)
- bod ymatebwyr syth/heterorywiol yn llai tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu ag ymatebwyr LHD+ (41% o'i gymharu â 87%)
- bod 90% o ymatebwyr trawsryweddol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf o'i gymharu â 58% o ymatebwyr annhrawsryweddol
- bod 61% o sefydliadau mawr (250 o bobl neu fwy) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod bwllch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr arferion trosi, tra cytunai neu cytunai'n gryf 34% o sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl

Cwestiwn 10

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ar gyfer mynd i'r afael â'r bwllch rydym wedi'i nodi? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	18%	9%	18%
Cytuno rhywfaint	35%	25%	35%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	18%	19%	18%
Anghytuno rhywfaint	5%	9%	5%
Anghytuno'n gryf	10%	17%	10%
Gwell gennyf beidio â dweud	13%	21%	14%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Sylwer: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- bod ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â chynigion yr ymgynghoriad ar gyfer mynd i'r afael â'r bwllch yn y ddarpariaeth, nad oedd 18% yn cytuno nac yn anghytuno, roedd 15% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, a dewisodd y 14% sy'n weddill 'Gwell gennyf beidio â dweud'
- bod unigolion yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf na sefydliadau (53% o'i gymharu â 34%)
- roedd ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu ag ymatebwyr a ymatebodd nad oeddent wedi'u cael (58% o'i gymharu â 56%)
- bod ymatebwyr heb gefndir crefyddol ddwywaith yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu â'r rhai â chefnidir crefyddol (65% i 27%)
- bod ymatebwyr oedd yn ymarferwyr meddygol yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf

o'i gymharu â'r rhai nad oeddent (63% o'i gymharu â 53%)

- roedd ymatebwyr syth/heterorywiol yn llai tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu ag ymatebwyr LHD+ (37% o'i gymharu â 78%)
- bod 80% o ymatebwyr trawsryweddol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf o'i gymharu â 52% o ymatebwyr ammhrawsryweddol
- bod 51% o sefydliadau mawr (250 o bobl neu fwy) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â chynigion yr ymgynghoriad ar gyfer mynd i'r afael â'r bwch yn y ddarpariaeth, tra cytunai neu cytunai'n gryf 30% o sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl.

Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o ddadansoddiad ansoddol o ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag:

- amddiffyn rhag arferion trosi dramor
- adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymorth
- mecanweithiau gorfodi ychwanegol
- dim angen cynigion i gyflwyno gorchmynion amddiffyn
- gorchmynion amddiffyn i bobl dros 18 oed

Dadansoddiad thematig

Trafodir y themâu allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad ansoddol yn fanylach. Fe'u cyflwynir yn nhrefn pa mor aml y cawsant eu codi gan ymatebwyr, ac amlygir unrhyw wahaniaethau rhwng ymatebwyr unigol a sefydliadol.

Thema 1: Diogelu rhag arferion trosi dramor

Er bod nifer o sefydliadau crefyddol wedi dweud nad oeddent wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod unigolion yn cael eu cludo dramor ar gyfer arferion trosi heb ganiatâd, roedd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys unigolion a oedd yn gweithio gyda dioddefwyr arferion trosi a sefydliadau a oedd yn gweithio ar ran pobl LHDT, yn mynnu y gallai unigolion neu sefydliadau dramor gynnig a hyrwyddo arferion trosi o hyd. Roedd hyn, meddent, yn golygu y gallai unigolion fod yn wrthrych arferion trosi o hyd ar ôl iddynt adael y DU. Roedd yr unigolion a'r sefydliadau hyn yn credu y gallai unigolion â chysylltiadau tramor (megis teulu sy'n byw y tu allan i'r DU) fod yn arbennig o agored i niwed ac y gallai fod gallu cyfyngedig i amddiffyn dioddefwyr posibl arferion trosi y tu allan i'r DU er gwaethaf gorchmynion amddiffyn.

“Efallai fod gan rai sefydliadau, gan gynnwys rhai crefyddol, gynrychiolaeth neu fod wedi'u cofrestru dramor a gallent ddefnyddio hyn fel bwch i gynnig therapi trosi yn y DU os na chaiff cwmpas y gyfraith dramor ei dynhau.” (Unigolyn, 35 i 44 oed, Cristnogol, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, fe wnaeth ymatebwyr, yn enwedig ymatebwyr unigol a nododd eu bod LHD+, alw am adnoddau ychwanegol i fonitro sefydliadau nad ydynt yn y DU a allai hysbysebu arferion trosi ar-lein neu gynnig arferion trosi drwy fideo-gynadledda.

“Mae hwn yn gam da o ran diogelu, ac yn dda i'w weld. Fodd bynnag, rhaid ehangu hyn i gynnwys unigolion LHDT+ yn rhithwir (trwy Zoom neu Skype ac ati) - os yw therapi trosi yn digwydd o bell, rhaid gwahardd hyn hefyd. Dylid erlyn unigolion sy'n cynorthwyo ac sy'n

annog anfon unigolion LHDT+ dramor am therapi hefyd.” (Unigolyn, 25 i 34 oed, digrefydd, syth/heterorywiol, annhrawsryweddol)

Yn gyffredinol, cytunai sefydliadau cyfiawnder troseddol a ymatebodd i'r ymgynghoriad â'r cynigion (gan nodi y byddai hyn yn cyd-fynd â mesurau presennol sy'n targedu anffurfio organau cenedlu benywod a phriodas dan orfod), gydag un ymatebydd yn sôn am bwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth o orchmynion amddiffyn ymhlith dioddefwyr posibl fel bod ganddynt y wybodaeth i ddod ymlaen a chael mynediad at amddiffyniad.

“Byddai'n rhaid gwneud dioddefwyr yn ymwybodol o niwed therapi trosi a'r ffaith bod y gorchmynion amddiffyn hyn yn bodoli. Mae'n debygol y byddai gorchmynion amddiffyn o'r fath yn ymwneud yn bennaf â phlant sy'n cael eu cludo dramor ar gyfer therapi trosi, felly mae ymwybyddiaeth o'r hyn sydd wedi'i wahardd a sut y gellir ceisio gorchmynion amddiffyn yn hanfodol. Byddai mynd i'r afael â'r bwlch yn amddiffyn iechyd meddyliol, emosiynol a chorfforol unigolyn sydd mewn perygl o gael ei orfodi i gael therapi trosi. Serch hynny, er mwyn i amddiffyniad o'r fath weithio mewn gwirionedd, byddai'n rhaid rhoi gwybod i'r dioddefwyr y gallent ddod ymlaen a chael mynediad at amddiffyniad o'r fath.” (Sefydliad, dim manylion pellach am faint wedi'u darparu)

Soniodd ymarferwyr meddygol a sefydliadau gofal iechyd am ystod eang o themâu yn eu hymatebion, gan gyffwrdd â phwyntiau tebyg a godwyd gan ymatebwyr yn fwy cyffredinol. O ran gwasanaethau a gynigir dramor, cytunodd llawer o'r ymatebwyr hyn y dylai cynigion gyd-fynd yn llawn â'r amddiffyniadau a'r cyfyngiadau cyfreithiol ar gyfer anffurfio organau cenedlu benywod (FGM) a phriodasau dan orfod, er bod rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at y ffaith fod angen i'r dioddefwr adael y DU ar gyfer FGM a phriodas dan orfod tra gellid darparu arferion trosi trwy ddulliau rhithwir hefyd (gan olygu bod angen cynigion a oedd yn ehangach o ran cwmpas na'r rhai sy'n mynd i'r afael ag FGM a phriodasau dan orfod yn unig).

“Hoffem i'r llywodraeth sicrhau bod y cynigion terfynol yn cyd-fynd yn llawn â'r cyfyngiadau cyfreithiol a ddarperir ar gyfer FGM a phriodas dan orfod. Hoffem hefyd weld yr amddiffyniad hwn yn cael ei ymestyn i bobl o bob oed ar y sail bod cydsyniad yn amhriodol. Er gwaethaf cyflwyno [gorchmynion amddiffyn], bydd pobl yn dal i fod yn agored i therapi trosi gan rywun y tu allan i'r DU trwy lwyfannau ar-lein, testun neu'r ffôn. Rhaid i'r llywodraeth ystyried fel rhan o'r cynigion hyn sut y bydd yn amddiffyn pobl yn y DU rhag dioddef therapi trosi yn y ffordd hon.” (Sefydliad, gofal iechyd, gyda 50 i 249 o bobl)

Awgrymodd nifer fach o sefydliadau gofal iechyd hefyd y dylid (i) gwahardd unigolion sy'n cynnal arferion trosi dramor rhag dod i mewn i'r DU a (ii) y dylai bod yn ddiodeffwr (neu fod mewn perygl) o arferion trosi fod yn sail gymeradwy i geisio lloches yn y DU.

Thema 2: Adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymorth

Galwodd llawer o ymatebwyr, yn enwedig unigolion, am gyllid neu adnoddau ychwanegol ar gyfer cymorth (megis gwasanaethau iechyd meddwl, llinellau cymorth gyda chefnogaeth i bobl nad ydynt yn siarad Saesneg neu fentrau cymunedol) i helpu dioddefwyr arferion trosi. Yn benodol, soniodd yr ymatebwyr hyn fod angen staff a oedd wedi cael hyfforddiant ffurfiol ar gyfer cymorth effeithiol a/neu sy'n rhannu cefndir tebyg i ddiodeffwyr, ac nad oedd gwasanaethau presennol bob amser yn darparu cymorth digonol i unigolion LHDT.

“Mae pobl LHDT+ mewn llawer mwy o berygl o bethau fel trais domestig a digartrefedd na'r boblogaeth gyffredinol, gyda therapi trosi yn chwarae rhan yn hyn. Mae'r

gwasanaethau hyn, yn gyffredinol, heb eu hariannu'n ddigonol ac yn aml nid oes rhai penodol i LHDT+ yn bodoli a'r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnig cymorth anghyson ar y gorau i'r gymuned LHDT+." (Unigolyn, 35 i 44 oed, di-grefydd, deurywiol, annhrawsryweddol)

Thema 3: Mecanweithiau gorfodi ychwanegol

Galwodd llawer o ymatebwyr unigol a sefydliadol am i'r gorchmynion amddiffyn arfaethedig fynd ymhellach. Awgrymodd yr ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys cyflwyno trosedd ychwanegol a chosb gyfreithiol yn targedu unigolion yn y DU sydd yn 'cynorthwyo ac yn annog' neu fel arall yn hwyluso sefydliadau dramor sy'n hyrwyddo arferion trosi, monitro dioddefwyr posibl drwy awdurdodau lleol, monitro effeithiolrwydd y cynigion ar ôl eu gweithredu, a gwahardd pob arfer trosi yn llwyr heb unrhyw opsiwn i gydsynio.

"Dylai llywodraeth y DU gyflwyno troseddau am gynorthwyo neu annog symud person o'r DU at ddiben therapi trosi yn y ffordd y mae anffurfio organau cenhedlu benywod neu briodas dan orfod yn droseddau troseddol." (Unigolyn, 45 i 54 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Thema 4: Dim angen cynigion i gyflwyno gorchmynion amddiffyn

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion naill ai (i) nad oeddent wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod unigolion yn cael eu cludo dramor ar gyfer arferion trosi heb ganiatâd, neu (ii) nad oedd bwllch yn y ddarpariaeth, a oedd yn golygu bod y cynigion yn ddiangen.

"Nid oes unrhyw achosion o unrhyw un yn cael ei gludo dramor am therapi trosi yn erbyn eu hewyllys! Byddai'r ddeddf arfaethedig, er fy mod yn anghytuno â hi, eisoes yn amddiffyn pobl rhag 'therapi trosi' os ydyn nhw o dan 18 oed, a heb gysyniad os ydyn nhw dros 18 oed. Felly nid oes 'bwllch' yn y cynigion, ac nid oes angen gorchmynion amddiffyn." (Unigolyn, 18 i 24 oed, Cristnogol, syth/heterorywiol, nad yw'n drawsryweddol)

Yn ogystal, roedd nifer fach o sefydliadau crefyddol ac ymatebwyr unigol a nododd fod ganddynt gredoau crefyddol yn teimlo y byddai'r cynigion yn ymyrryd â gallu rhieni i fagu eu plant, megis y gallu i deithio dramor neu fyw mewn gwlad arall gyda'u plant. Roedd yr ymatebwyr hyn yn pryderu bod y cynigion yn brin o eglurder ynghylch pwy allai wneud cais am orchmynion amddiffyn, ac o ganlyniad gallai rhieni â chredoau crefyddol penodol gael eu targedu'n annheg gan 'actifyddion'.

"Oherwydd yr amwysedd ynghylch pwy all neu na all wneud cais am y gorchmynion amddiffyn hyn, byddwn i'n ymatal rhag eu gweithredu, gan y byddai'n creu modd i actifyddion sy'n dal safbwynt cadarnhaol LHDTTC ei ecsbloetio, gan y gallent gymhwyso'r gorchmynion hyn i blant sydd dan ofal rhieni Cristnogol sy'n dal i safon feiblaidd o foesoldeb rhywiol." (Unigolyn, 18 i 24 oed, Cristion, syth/heterorywiol, annhrawsryweddol)

Thema 5: Gorchmynion amddiffyn i bobl dros 18 oed

Dadleuodd rhai ymatebwyr y dylai'r opsiwn i dynnu'r pasbort neu'r dull teithio oddi ar y person i'w amddiffyn fod ar gael i bobl dros 18 oed yn fwy cyffredinol hefyd ac nid yn unig dan amgylchiadau eithafol.

"Byddwn i'n dadlau, mewn cartrefi teulu lle mae pobl ifanc yn 18+ oed, bod y risg o gael eich gorfodi i fynd dramor i gael therapi trosi yn uchel ac na ddylid tynnu'r pasbort i amddiffyn yr oedolion ifanc hyn yn unig dan 'amgylchiadau eithafol', ond hefyd yn yr un

modd ag y byddai i berson ifanc o dan 18 oed.” (Unigolyn, 25 i 34 oed, di-grefydd, syth/heterorywiol, annhrawsryweddol)

4.3. Sicrhau nad yw elusennau’n cefnogi arferion trosi

Cwestiynau a drafodir yn yr adran hon

Mae'r adran hon yn ymwneud â chynnig y llywodraeth flaenorol y byddai person a geir yn euog o naill ai 1) y drosedd newydd, neu 2) drosedd presennol a oedd yn destun ffactor gwaethyngol arfer trosi yn fwy tebygol o gael ei anghymhwysu rhag gweithio yn uwch arweinydd mewn elusen. Os na chanfuwyd unrhyw ddiben elusennol er budd y cyhoedd ar gyfer yr elusen, byddai'r statws yn cael ei ddileu o'r sefydliad. Byddai pob achos yn cael ei ystyried ar ei ffeithiau penodol, a byddai angen bodloni pob rhan o'r prawf yn adran 181A o Ddeddf Elusennau 2011.

Cwestiwn 11

Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am lywodraethu elusen a chyfarwyddo sut mae'n cael ei rheoli a'i rhedeg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio cynigion lle bydd yr achos yn erbyn unrhyw un a geir yn euog o gynnal therapi trosi, i'w gwahardd rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr mewn unrhyw elusen, yn cael ei gryfhau. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	59%	34%	58%
Cytuno rhywfaint	7%	4%	7%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	6%	11%	6%
Anghytuno rhywfaint	4%	8%	4%
Anghytuno'n gryf	18%	31%	18%
Gwell gennyf beidio â dweud	7%	13%	7%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Sylwer: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- bod bron dwy ran o dair o'r ymatebwyr (65%) i'r cwestiwn hwn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â dull arfaethedig yr ymgynghoriad i anghymhwysu ymddiriedolwyr elusen a geir yn euog o gynnal arferion trosi, roedd 6% o'r ymatebwyr heb gytuno nac anghytuno, ac roedd 22% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf
- bod unigolion yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi cytuno neu wedi cytuno'n gryf na

sefydliadau (65% o'i gymharu â 38%)

- roedd ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu ag ymatebwyr a ymatebodd nad oeddent wedi'u cael (72% o'i gymharu â 68%)
- bod ymatebwyr heb gefndir crefyddol ddwywaith yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu â'r rhai â chefnid crefyddol (78% i 34%)
- bod ymatebwyr oedd yn ymarferwyr meddygol yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu â'r rhai nad oeddent. (76% o'i gymharu â 65%)
- bod ymatebwyr syth/heterorywiol yn llai tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf o'i gymharu ag ymatebwyr LHD+ (46% o'i gymharu â 93%)
- bod 96% o ymatebwyr trawsryweddol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf o'i gymharu â 63% o ymatebwyr annhrawsryweddol
- bod 60% o sefydliadau mawr (250 o bobl neu fwy) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â dull arfaethedig yr ymgynghoriad i anghymhwysu ymddiriedolwyr elusen a geir yn euog o gynnal arferion trosi, tra cytunai neu cytunai'n gryf 33% o sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl

Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o ddadansoddiad ansoddol o ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag:

- chamddefnyddio pŵer
- cwmpas gorfodi
- effaith bosibl ar elusennau sy'n seiliedig ar ffydd

Dadansoddiad thematig

Trafodir y themâu allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad ansoddol yn fanylach. Fe'u cyflwynir yn nhrefn pa mor aml y cawsant eu codi gan ymatebwyr, ac amlygir unrhyw wahaniaethau rhwng ymatebwyr unigol a sefydliadol.

Thema 1: Camddefnyddio pŵer

Tynnodd llawer o ymatebwyr unigol a rhai sefydliadau sylw at y ddyletswydd gofal sydd ymhlyg ym mhwrpas a gweithrediadau pob elusen. Dadleuodd yr ymatebwyr hyn, ar y sail hon, na fyddai unigolion a geir yn euog o gyflawni arferion trosi yn addas ar gyfer unrhyw swydd o ymddiriedaeth nac ar gyfer gweithio gyda phobl agored i niwed. I'r ymatebwyr hyn, byddai disgwyl i ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau yn seiliedig ar fuddiannau gorau pobl mewn angen. Roeddent yn teimlo na fyddai unigolion sy'n cefnogi arferion trosi yn addas i wasanaethu'r diben hwn a chynnal safonau uniondeb. Dadleuodd rhai ymatebwyr hefyd fod anghymhwysu yn bwysig er mwyn sicrhau na fyddai'r unigolion hyn yn gallu ceisio swyddi pŵer eraill dros ddiodeffwyr posibl arferion trosi.

“Fel elusen rydym yn cefnogi'r cynnig hwn yn gryf. Mae'n bwysig bod gan y cyhoedd hyder yng ngwaith elusennau ac na all unrhyw sefydliadau sy'n darparu therapïau trosi honni eu bod yn cyflawni diben elusennol. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith y byddai'r cynigion yn cyfyngu ar effaith unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o geisio newid cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd person drwy geisio gwneud hynny o dan elusen arall.” (Sefydliad,

yn gweithio ar ran pobl LHDT, gyda rhwng 11 a 49 o bobl)

Fe wnaeth nifer o ymatebwyr, gan gynnwys rhai a nododd eu bod yn ymddiriedolwyr elusen yn yr ymgynghoriad, nodi hefyd y dylai unigolion sy'n cefnogi arferion trosi wynebu canlyniadau difrifol i weithredu fel ataliad a sicrhau atebolrwydd ymddiriedolwyr elusen. Teimlai'r ymatebwyr hyn y byddai cosbau cryfach yn annog eraill i beidio ag awgrymu neu hyrwyddo arferion trosi. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai cosbau o'r fath yn cyfyngu ar ddylanwad pobl a geir yn euog o gefnogi arferion trosi.

“Gall agendâu personol ddylanwadu ar y ffordd y mae elusennau'n gweithio. Mae angen rhoi cosbau ar waith i atal hyn rhag digwydd.” (Unigolyn, 55 i 64 oed, Bwdhaidd, syth/heterorywiol, annhrawsryweddol)

Thema 2: Cwmpas gorfodi

Dadleuodd rhai ymatebwyr unigol nad oedd y canlyniadau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell, gan y gallai unigolion sydd wedi'u hanghymwysu barhau i hyrwyddo arferion trosi mewn gwahanol feysydd dylanwad – er enghraifft, y tu allan i waith elusennol. Galwodd yr ymatebwyr hyn am ganlyniadau cryfach, gan gynnwys gwahardd yr unigolyn ar unwaith, dileu unrhyw drwyddedau clinigol, neu gosb a osodir ar yr elusen yr oedd yr unigolyn yn ymddiriedolwr iddi.

“Rwy'n pryderu bod bwloch ynghylch y diffyg targedu elusen fel sefydliad y gallai ei bwrpas ganolbwyntio ar therapi trosi. Os mai dim ond unigolion y mae'r ddeddfwriaeth yn eu targedu, gellid trosglwyddo'r cyfrifoldeb i hyrwyddo therapi trosi gan yr elusen honno i rywun arall, ac ymlaen ac ymlaen.” (Unigolyn, 35 i 44 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr unigol a sefydliadol yn teimlo, hyd yn oed pe bai ymddiriedolwr yn cael ei gael yn euog o gynnal arferion trosi, na ddylid ei atal rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr gan nad oes gan eu barn ar arferion trosi unrhyw berthynas â'u gallu i lywodraethu elusen benodol. Roedd ymatebwyr eraill (gan gynnwys nifer fach iawn o elusennau nad oeddent yn seiliedig ar ffydd) o'r farn nad oedd angen y cynnig gan fod gan elusennau eisoes y pŵer cyfreithiol, yr ymreolaeth a'r offer i anghymhwysu eu hymddiriedolwyr os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

“Gallai person weithio mewn un elusen a bod yn ymddiriedolwr i un arall mewn rhinwedd bersonol. Efallai nad oes gan ei swydd yn ystod y dydd ddim i'w wneud â'u credoau ynghylch therapi trosi sy'n golygu bod eu hanghymwysu o rôl eu swydd ddyddiol - a thrwy hynny atal eu gallu i ennill cyflog - braidd yn aneffeithiol.” (Unigolyn, 45 i 54 oed, Cristion, syth/heterorywiol, annhrawsryweddol)

Thema 3: Effaith bosibl ar elusennau sy'n seiliedig ar ffydd

Mynegodd sefydliadau crefyddol, ymatebwyr â chredoau crefyddol, a nifer lai o elusennau ffydd bryder ynghylch y cynnig. Roedd yr ymatebwyr hyn yn poeni y gallai'r cynnig gael ei gamddefnyddio oherwydd diffyg manylder yn yr iaith. Cododd llawer o'r ymatebwyr hyn yr enghraifft, yn eu barn nhw, na ddylid cosbi ymddiriedolwyr eglwysi am weddi'o dros aelodau eu heglwys neu addysgu moeseg rywiol Gristnogol draddodiadol, ac na ddylai'r gweithredoedd hyn fod yn sail ddigonol i'w gwahardd rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr.

“Gallai rhieni, bugeiliaid a therapyddion sy'n eiriol dros foesoldeb rhywiol Cristnogol gael eu troseddoli am fynegi eu barn. Nid ydym yn teimlo bod y rhain yn seiliau i'w gwahardd

rhad gwasanaethu fel ymddiriedolwr elusen, yn enwedig o elusen Gristnogol sy'n hyrwyddo moesoldeb rhywiol Cristnogol. (Sefydliad, yn gweithio ar ran plant, pobl ifanc, pobl â chredoau crefyddol, a menywod, sydd â rhwng 11 a 49 o bobl)

4.4. Themâu trawsbynciol ar hyrwyddo arferion trosi

Mynd i'r afael â'r canfyddiad o hyrwyddo arferion trosi ar y cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau ar-lein

Mynegodd ymatebwyr unigol bryder yn aml nad oedd Cod Darlledu Ofcom o bosibl yn mynd i'r afael yn ddigonol â chynnwys ar wefannau'r cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau ar-lein eraill. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu bod llawer o sefydliadau neu ymarferwyr yn hysbysebu'n gyhoeddus neu'n mynegi cefnogaeth i arferion trosi, y gellid eu defnyddio wedyn mewn hysbysebion wedi'u targedu at unigolion agored i niwed. Er enghraifft, gallai sefydliadau greu tudalennau gwe a oedd yn cynnig 'cynorthwyo' unigolion sy'n cael trafferth gyda'u hunaniaeth a sefydlu'r tudalennau gwe fel y byddent yn ymddangos mewn canlyniadau chwilio yn seiliedig ar dermau neu gwestiynau chwilio cyffredin.

“Nid yw pob dylanwad yn cael ei wneud drwy hysbysebu penodol, gyda ffi ariannol yn cael ei thalu, nac wedi'i strwythuro rhwng rhaglenni teledu neu ar bapur. Mae angen meddwl hefyd am y dylanwadau di-dâl ar y cyfryngau cymdeithasol, penawdau tabloid, diwylliant ehangach hefyd.” (Unigolyn, 55 i 64 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Er mwyn cyfyngu'n well ar yr hyn yr oedd yr ymatebwyr hyn yn ystyried ei fod yn hyrwyddo arferion trosi ar lwyfannau ar-lein, un ateb posibl a awgrymwyd oedd bod Ofcom yn darparu canllawiau mwy penodol ar ba iaith oedd yn gyfystyr â hyrwyddo arferion trosi.

“Dylai'r llywodraeth ddefnyddio'r cyfle hwn i adolygu'r Cod Darlledu a dealltwriaeth Ofcom wrth ei gymhwyso i fater therapi trosi. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ganllawiau penodol i ddarlledwyr, o ystyried nad yw therapi trosi wedi'i gynnwys fel trosedd o'r blaen. Dylid rhoi ystyriaeth benodol mewn unrhyw adolygiad a chanllawiau i gyfryngau cymdeithasol, a sut i wahardd cyfeirio at therapiau trosi ar gyfryngau cymdeithasol yn effeithiol, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd lle gall cyfeirio felly ymddangos fel cyfathrebu crefyddol neu ffydd. (Sefydliad, yn gweithio ar ran menywod, gydag 1 i 10 o bobl)

Y canfyddiad o hyrwyddo arferion trosi sy'n seiliedig ar ffydd

Soniodd llawer o ymatebwyr am yr angen i fynd i'r afael ag arferion trosi a hyrwyddir, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, gan eglwysi neu grwpiau ffydd.

“Ymhlith llawer o sefydliadau crefyddol, mae 'hysbysebu' yn digwydd ar lafar gwlad neu pan fydd person yn ceisio gofal bugeiliol gan glerigwyr sy'n troi allan i fod yn rhagfarnllyd ac yn homoffobig. Rwy'n gwybod am enghreifftiau lle mae clerigwyr wedi argymhell “trosi”. (Unigolyn, unigolyn 65 i 74 oed, Bwdhydd, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnal bod eglwysi a grwpiau ffydd eraill yn defnyddio ystod eang o sianeli i hyrwyddo arferion trosi, gan gynnwys arwyddion corfforol, llafar gwlad, neu hysbysebion gan ddefnyddio iaith generig, megis “disgyblaeth” neu “gyfanrwydd personol”.

“Rydw i wedi gweld arwyddion homoffobig y tu allan i eglwysi ac wedi dod ar draws pregethwyr crefyddol yn gyhoeddus yn lledaenu negeseuon bod hunaniaethau LHDTTC+ yn gwbl 'annaturiol' ac yn annog y rhan honno o'r gymuned i 'newid eu hunain' neu fynychu therapi trosi.” (Unigolyn, 18 i 24 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, trawsryweddol)

Canfyddiadau a naratifau negyddol

Yn olaf, trafododd nifer o ymatebwyr bortreadau cadarnhaol neu negyddol o bobl LHDT mewn ffilmiau neu raglenni teledu - naill ai yn rhan o'r naratif a'r drafodaeth neu'r darllediad o bobl benodol. Er y gallai hwn fod yn fater pwysig i'w drafod, mae hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad ar gyflwyno deddfwriaeth newydd i wahardd arferion trosi.

4.5. Sicrhau bod gwasanaethau statudol yn cydnabod arferion trosi

Cwestiynau a drafodir yn yr adran hon

Yn yr adran hon, trafododd ymgynghoriad y llywodraeth flaenorol y disgwyliadau o ran gwasanaethau statudol a gynigir gan sefydliadau i weithredu yn erbyn ymarferwyr arferion trosi a chefnogi eu dioddefwyr. Yn benodol, nododd yr ymgynghoriad y byddai disgwyl i wasanaethau statudol ddatblygu fframweithiau polisi sy'n cydnabod arferion trosi fel problem ac i ganolbwyntio ar ddatrys yr heriau y mae dioddefwyr sy'n dod ymlaen yn eu hwynebu. Yn ogystal, byddai disgwyl i wasanaethau statudol ddarparu hyfforddiant ar sut i amddiffyn pobl rhag cael eu niweidio, a byddai'r llywodraeth flaenorol wedi gweithio gyda'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Cwestiwn 12

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y sefydliadau canlynol yn darparu camau digonol yn erbyn pobl a allai fod yn cynnal therapi trosi eisoes? (Yr Heddlu; Gwasanaeth Erllyn y Goron; gwasanaethau statudol eraill)? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

Ymateb yn ôl math (heddlu)

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	5%	6%	5%
Cytuno rhywfaint	7%	9%	7%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	25%	26%	25%
Anghytuno rhywfaint	12%	8%	12%
Anghytuno'n gryf	34%	22%	33%
Gwell gennyf beidio â dweud	17%	29%	17%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n

cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Ymateb yn ôl math (CPS)

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	5%	6%	5%
Cytuno rhywfaint	7%	9%	7%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	26%	26%	26%
Anghytuno rhywfaint	12%	8%	12%
Anghytuno'n gryf	32%	21%	32%
Gwell gennyf beidio â dweud	17%	29%	18%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Ymateb yn ôl math (Gwasanaethau eraill)

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	5%	5%	5%
Cytuno rhywfaint	6%	7%	6%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	30%	29%	30%
Anghytuno rhywfaint	10%	10%	10%
Anghytuno'n gryf	30%	20%	30%
Gwell gennyf beidio â dweud	19%	30%	19%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- nad oedd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng atebion meintiol yr ymatebwyr i'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gwasanaethau statudol eraill (dewisodd yr ymatebwyr yr un ateb ar gyfer y 3 chwestiwn yn gyffredinol)
- bod tua 12% o'r ymatebwyr i'r set hon o 3 chwestiwn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gwasanaethau statudol eraill yn cymryd camau digonol yn erbyn pobl a allai eisoes fod yn cynnal arferion trosi – er cymhariaeth, roedd 45% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf pan ofynnwyd iddynt am yr heddlu, ac yna 43% o'r ymatebwyr ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron a 40% o'r

ymatebwyr ar gyfer gwasanaethau statudol eraill

- bod unigolion yn fwy tebygol o anghytuno neu anghytuno'n gryf ar draws y 3 chwestiwn na sefydliadau (37% o'i gymharu â 28%) – roedd sefydliadau'n fwy tebygol o ddewis 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu 'Gwell gen i beidio â dweud' ar gyfer y 3 chwestiwn (53% o'i gymharu â 38%)
- bod ymatebwyr a oedd wedi cael arferion trosi yn fwy tebygol o anghytuno neu anghytuno'n gryf dros yr heddlu (57% i 47%), Gwasanaeth Erlyn y Goron (57% i 47%) a gwasanaethau statudol eraill (52% i 42%) o'i gymharu ag ymatebwyr a ymatebodd nad oeddent wedi'u cael
- bod 20% o'r ymatebwyr â chefnidir crefyddol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar draws y 3 sefydliad (o'i gymharu â 44% nad oedd ganddynt gefndir crefyddol) – dewisodd 60% o'r ymatebwyr â chefnidir crefyddol 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu 'Gwell gennyf beidio â dweud' ar draws y 3 sefydliad
- bod ymatebwyr a oedd yn ymarferwyr meddygol yr un mor debygol o anghytuno neu anghytuno'n gryf ar draws y 3 sefydliad ag ymatebwyr nad oeddent yn ymarferwyr meddygol (38%)
- bod 25% o ymatebwyr syth/heterorywiol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar draws y 3 sefydliad o'i gymharu â 51% o'r ymatebwyr LHD+
- bod 63% o ymatebwyr trawsryweddol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar draws y 3 sefydliad o'i gymharu â 36% o ymatebwyr annhrawsryweddol
- bod 39% o sefydliadau mawr (250 o bobl neu fwy) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod pob un o'r 3 sefydliad yn cymryd camau digonol yn erbyn pobl a allai eisoes fod yn cynnal arferion trosi, tra anghytunai neu anghytunai'n gryf 26% o sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl.

Mewn ymatebion testun rhydd, roedd yr ymatebwyr yn canolbwyntio amlaf ar yr heddlu neu'n cyfeirio at y 3 sefydliad ar y cyd, gyda llai o gyfeiriadau penodol at Wasanaeth Erlyn y Goron neu wasanaethau statudol eraill. Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, nid oedd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng atebion meintiol yr ymatebwyr ar draws y 3 sefydliad.

Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o ddadansoddiad ansoddol o ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â:

- chamau ataliol
- heriau sy'n wynebu gwasanaethau statudol wrth nodi dioddefwyr
- problemau canfyddedig gyda gwasanaethau statudol

Dadansoddiad thematig

Trafodir y themâu allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad ansoddol yn fanylach. Fe'u cyflwynir yn nhrefn pa mor aml y cawsant eu codi gan ymatebwyr, ac amlygir unrhyw wahaniaethau rhwng ymatebwyr unigol a sefydliadol.

Thema 1: Camau ataliol

Teimlai llawer o ymatebwyr unigol fod parhad arferion trosi yn brawf digonol nad oedd

gwasanaethau statudol yn cymryd camau digonol. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd fod arferion trosi yn llawer mwy cyffredin nag yr oedd y gwasanaethau hyn yn ei gredu, a dylid gwneud mwy o waith i nodi ac olrhain unigolion a sefydliadau sy'n eu cyflawni.

"Mae'n dal i fod yn arfer a ddefnyddir yn eang, a dyna pam y cynigir hyn, felly mae'n amlwg nad yw'r heddlu'n gwneud digon o dan y deddfau presennol neu na allant wneud digon." (Unigolyn, 18 i 24 oed, di-grefydd, deurywiol, annhrawsryweddol)

Thema 2: Heriau sy'n wynebu gwasanaethau statudol wrth nodi dioddefwyr

Mynegodd llawer o ymatebwyr, yn enwedig unigolion yn ogystal â sefydliadau a nododd eu bod yn cynrychioli colegau a phrifysgolion, bryderon bod gwasanaethau statudol yn methu â chymryd camau yn erbyn unigolion neu sefydliadau sy'n cynnal arferion trosi oherwydd eu bod yn cael trafferth nodi dioddefwyr, yn enwedig os oedd y dioddefwyr yn destun arferion trosi o fewn lleoliadau crefyddol neu deuluol.

Mae'r ffaith fod therapi trosi, yn aml, yn digwydd o fewn teuluoedd caeedig neu leoliadau ffydd yn golygu nad yw'r awdurdodau statudol, yn aml, yn gallu ymyrryd neu eu bod yn amharod i ymyrryd. Mae angen mwy o barodrwydd ar ran yr awdurdodau i ymyrryd i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. (Sefydliad, yn gweithio ar ran pobl LHDT, sydd â rhwng 1 a 10 o bobl)

"Mae wedi'i ddogfennu'n dda, ac yn amlwg iawn wrth weithio yn y sector, bod goroeswyr o aelwydydd crefyddol yn fwy tebygol o gael eu hanwybyddu, eu rhoi mewn mwy o berygl, neu eu hail-drawmateiddio gan wasanaethau statudol. Mae hyn oherwydd bod trais personol/teuluol, yn enwedig yn erbyn menywod, yn dal i gael ei ystyried, yn rhy aml, yn anghytundeb ynghylch credoau crefyddol neu ddiwylliannol. Gan fod therapi trosi yn digwydd gan amlaf mewn lleoliadau teuluol, crefyddol a diwylliannol, mae bron yn sicr y byddai'r un broblem yn codi - byddai gwasanaethau statudol mewn perygl o anwybyddu neu gyfiawnhau arferion anfoesol, niweidiol a gwaharddedig yn enw goddefgarwch crefyddol. (Unigolyn, 25 i 34 oed, crefydd arall, deurywiol, trawsryweddol)

I liniaru hyn, awgrymodd unigolion a nifer fach o sefydliadau (yn enwedig y rhai a oedd yn gweithio ar ran unigolion LHDT) y dylai gwasanaethau statudol ddarparu hyfforddiant arbenigol i'w staff i nodi a chefnogi dioddefwyr yn well, neu gael mwy o adnoddau.

"Yn aml, mae therapi trosi yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig ac nid oes gan yr heddlu'r adnoddau na'r hyfforddiant ar hyn o bryd i nodi pryd mae therapi trosi yn digwydd." (Unigolyn, 25 i 34 oed, di-grefydd, syth/heterorywiol, annhrawsryweddol)

"Credwn, heb fod unrhyw gosbau sydd ar gael ar hyn o bryd, nad yw gwasanaethau statudol yn gallu delio'n effeithiol â materion therapi trosi. Mae hefyd ddiffyg ymwybyddiaeth o therapi trosi a niwed ymhlith gwasanaethau statudol ac angen clir am arbenigedd a gwybodaeth arbenigol." (Sefydliad, gofal iechyd, gweithio ar ran plant, pobl ifanc, pobl LHDT, pobl â chredoau crefyddol a menywod, sydd â rhwng 11 a 49 o bobl)

Thema 3: Problemau canfyddedig ynghylch gwasanaethau statudol

Dyweddodd llawer o sefydliadau crefyddol nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosiom o arferion trosi lle'r oedd angen gweithredu ond na chymerwyd camau (ac felly ni allant ateb y

cwestiwn yn llawn). Mynegodd nifer fach o sefydliadau crefyddol gredoau a phryderon ynghylch y camau a gymerwyd gan wasanaethau statudol a chyrff cyhoeddus eraill. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hyn eu bod yn credu bod elusennau, clinigau ac awdurdodau lleol yn hyrwyddo trosi rhywedd ymhlith plant dan oed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol heb y gofal angenrheidiol na'r cwnsela ymlaen llaw.

“Mae gen i bryderon difrifol am y corff sy'n cynghori ein hawdurdod lleol ar faterion rhywedd, gan ei fod yn argymhell yn llwyr y 'model cadarnhad' ar gyfer plant sy'n uniaethu fel trawsryweddol, ac rwy'n deall bod hynny'n geidwadol, yn atchweliadol ac yn gyfyngol.” (Unigolyn, 45 i 54 oed, di-grefydd, syth/heterorywiol, nad yw'n drawsryweddol)

Cododd ymatebwyr eraill y pwynt nad oedd gan wasanaethau statudol ganllawiau arbenigol i wahaniaethu rhwng arferion trosi, ymddygiad sy'n cynnwys iaith casineb, a sesiynau therapiwtig neu gwnsela cyfreithlon, gan arwain at risgiau o dorri rhyddid crefyddol neu ryddid arall.

“Yn aml, mae'r heddlu wedi bod yn rhy gyflym yn eu hymateb i honiadau o iaith casineb. Yna mae sefydliadau wedi cael eu dwyn i'r llys ar gyhuddiadau o'r fath - ond yn y pen draw cafodd y materion eu gwrthod ar sail rhyddid barn/cydwbybod/crefydd.” (Sefydliad, yn gweithio ar ran plant, pobl ifanc, pobl â chredoau crefyddol, a menywod, gydag 1 i 10 o bobl)

Cwestiwn 13

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y sefydliadau canlynol yn darparu cymorth digonol i ddiodefwrwr therapi trosi? (Yr Heddlu; Gwasanaeth Erllyn y Goron; gwasanaethau statudol eraill)? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

Ymateb yn ôl math (heddlu)

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	3%	2%	3%
Cytuno rhywfaint	5%	5%	5%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	29%	31%	29%
Anghytuno rhywfaint	12%	9%	12%
Anghytuno'n gryf	34%	21%	34%
Gwell gennyf beidio â dweud	18%	31%	18%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Ymateb yn ôl math (CPS)

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	3%	3%	3%
Cytuno rhywfaint	5%	5%	5%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	30%	32%	30%
Anghytuno rhywfaint	11%	8%	11%
Anghytuno'n gryf	33%	22%	33%
Gwell gennyf beidio â dweud	19%	32%	19%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Ymateb yn ôl math (Gwasanaethau Eraill)

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Cytuno'n gryf	3%	3%	3%
Cytuno rhywfaint	4%	4%	4%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	32%	31%	32%
Anghytuno rhywfaint	11%	9%	11%
Anghytuno'n gryf	30%	21%	30%
Gwell gennyf beidio â dweud	20%	32%	20%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: Ni wnaeth 9 ymatebydd eu nodi eu hunain fel unigolyn na fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- nad oedd unrhyw wahaniaethau mawr rhwng atebion meintiol yr ymatebwyr i'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gwasanaethau statudol eraill (dewisodd yr ymatebwyr yr un ateb ar gyfer y 3 chwestiwn yn gyffredinol)
- bod oddeutu 7% o'r ymatebwyr i'r set hon o 3 chwestiwn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gwasanaethau statudol eraill yn darparu cefnogaeth ddigonol i ddiodefwr arferion trosi – er cymhariaeth, roedd 46% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf pan ofynnwyd iddynt am yr heddlu, ac yna 44% o'r ymatebwyr ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron a 41% o'r ymatebwyr ar gyfer gwasanaethau statudol eraill, ac atebodd tua 19% o'r ymatebwyr 'Gwell gen i beidio â dweud' ar gyfer pob cwestiwn
- bod unigolion yn fwy tebygol o anghytuno neu anghytuno'n gryf ar draws y 3 sefydliad na sefydliadau (38% o'i gymharu â 28%) – bod sefydliadau'n fwy tebygol o ddewis 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu 'Gwell gen i beidio â dweud' ar gyfer y 3 chwestiwn (60% o'i

gymharu â 43%)

- bod ymatebwyr a oedd wedi cael arferion trosi yn fwy tebygol o anghytuno neu anghytuno'n gryf dros yr heddlu (58% i 47%), Gwasanaeth Erlyn y Goron (57% i 46%) a gwasanaethau statudol eraill (53% i 42%) o'i gymharu ag ymatebwyr a ymatebodd nad oeddent wedi'u cael
- bod 19% o'r ymatebwyr â chefnidir crefyddol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar draws y 3 chwestiwn o'i gymharu â 45% nad oedd ganddynt gefndir crefyddol – er cymhariaeth, dewisodd 67% o'r ymatebwyr â chefnidir crefyddol 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu 'Gwell gennyf beidio â dweud' ar gyfer y 3 chwestiwn o'i gymharu â 34% nad oedd ganddynt gefndir crefyddol
- bod 40% o'r ymatebwyr a oedd yn ymarferwyr meddygol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar draws y 3 chwestiwn o'i gymharu â 39% o'r ymatebwyr nad oeddent yn ymarferwyr meddygol.
- bod 24% o ymatebwyr syth/heterorywiol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar draws y 3 chwestiwn o'i gymharu â 52% o ymatebwyr LHD+
- Roedd 64% o ymatebwyr trawsryweddol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar draws y 3 chwestiwn o'i gymharu â 37% o ymatebwyr annhrawsryweddol
- bod 43% o sefydliadau mawr (250 o bobl neu fwy) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y 3 sefydliad i gyd yn darparu cefnogaeth ddigonol i ddiodefwyr arferion trosi, tra anghytunai neu anghytunai'n gryf 25% o sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl.

Cwestiwn 14

Ydych chi'n meddwl y gall y gwasanaethau hyn wneud mwy i gefnogi dioddefwyr therapi trosi?

Os ydych chi, beth arall ydych chi'n meddwl y gallen nhw ei wneud?

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Ydw	63%	42%	63%
Nac ydw	7%	12%	7%
Ddim yn gwybod	29%	46%	30%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: 9 ymatebydd nad oeddent yn nodi eu hunain fel unigolyn nac fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- bron dwy ran o dair o'r ymatebwyr (63%) a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y gallai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gwasanaethau statudol eraill wneud mwy i gefnogi dioddefwyr arferion trosi, bod 7% yn anghytuno, ac atebodd 30% 'Gwell gennyf beidio â dweud'
- bod unigolion yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn cytuno na sefydliadau (63% o'i gymharu â 42%)
- roedd ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi yn fwy tebygol o ateb 'Ydw' o'i gymharu ag ymatebwyr a ymatebodd nad oeddent wedi'u cael (73% o'i gymharu â 66%)
- bod ymatebwyr heb gefndir crefyddol ddwywaith yn fwy tebygol o ateb 'Ydw' na'r rhai â chefnidir crefyddol (76% i 34%)
- bod ymatebwyr oedd yn ymarferwyr meddygol yn fwy tebygol o ateb 'Ydw' o'i gymharu â'r rhai nad oeddent (75% o'i gymharu â 63%)
- yr atebodd 45% o ymatebwyr syth/heterorywiol 'Ydw' o'i gymharu â 90% o ymatebwyr LHD+
- bod 92% o ymatebwyr trawsryweddol yn cytuno o'i gymharu â 61% o ymatebwyr annhrawryweddol
- Cytunai 57% o sefydliadau mawr (250 o bobl neu fwy) y gallai'r gwasanaethau hyn wneud mwy i gefnogi dioddefwyr arferion trosi, tra cytunai neu cytunai'n gryf 38% o sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl.

Fel gyda Chwestiwn 12, mewn ymatebion testun rhydd, roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar yr heddlu neu gyfeirio at y 3 sefydliad ar y cyd, gyda llai o gyfeiriadau penodol at Wasanaeth Erlyn y Goron neu wasanaethau statudol eraill. Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, nid oedd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng atebion meintiol yr ymatebwyr ar draws y 3 sefydliad.

Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o ddadansoddiad ansoddol o ymatebion testun rhydd i Gwestiynau 13 a 14 yn ymwneud â:

- gwasanaethau iechyd meddwl
- addysg a hyfforddiant staff
- mathau eraill o gefnogaeth
- cwestiynu'r angen am gefnogaeth

Dadansoddiad thematig

Trafodir y themâu allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad ansoddol yn fanylach. Fe'u cyflwynir yn nhrefn pa mor aml y cawsant eu codi gan ymatebwyr, ac amlygir unrhyw wahaniaethau rhwng ymatebwyr unigol a sefydliadol.

Thema 1: Cymorth iechyd meddwl arbenigol i ddiodefwyr arferion trosi

Cytunai llawer o ymatebwyr unigol a sefydliadol fod angen cryn dipyn o gymorth ar ddiodefwyr arferion trosi i brosesu trawma arferion trosi a bod lefelau presennol y cymorth gan wasanaethau statudol yn annigonol, gyda rhai ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gymorth sylweddol a ddarperir gan y gwasanaethau hyn. I fynd i'r afael â hyn, cynigiodd yr ymatebwyr atebion megis sesiynau cwnsela am ddim wedi'u darparu gan weithwyr proffesiynol arbenigol, llinell gymorth bwrpasol, a grwpiau cymorth.

"Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gymorth parhaus sylweddol sydd ar gael. Byddai diodefwyr therapi trosi fel arfer angen sesiynau cwnsela rheolaidd am nifer o fisoedd neu flynyddoedd i ganiatáu iddynt brosesu'r cam-drin y maent wedi'i ddiodef a'u galluogi i fyw bywyd hapus a llawn. Dylai'r llywodraeth roi'r cymorth hwn ar waith i'r rhai sydd ei hangen. (Unigolyn, 25-34 oed, Cristion, syth/heterorywiol, nad yw'n drawsryweddol)

Thema 2: Addysg a hyfforddiant staff

Roedd llawer o ymatebwyr unigol yn ogystal â darparwyr gofal iechyd LHDT arbenigol a cholegau a phrifysgolion yn teimlo y gellid gwella'r cymorth trwy addysg a hyfforddiant arbenigol ychwanegol i staff. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn y byddai addysgu staff ar fanylion arferion trosi yn meithrin gwybodaeth i ddeall diodefwyr yn well ac i frwydro yn erbyn rhagfarnau a rhagdybiaethau.

Mae cyswllt cyntaf â'r heddlu a Gwasanaeth Erllyn y Goron yn allweddol, ac mae angen i bob swyddog gael hyfforddiant priodol mewn technegau i gefnogi a dilysu'r diodefwyr y maent yn dod ar eu traws ar adeg rhoi gwybod am y drosedd. Yn ddefnyddol, dylai fod pwyslais ar agweddau cyfiawnder cymdeithasol wrth recriwtio a hyfforddi. (Unigolyn, 35 i 44 oed, Cristion, deurywiol, trawsryweddol)

Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyrff proffesiynol, y dylid hyfforddi staff yn benodol ar sut i ymdrin â diodefwyr arferion trosi. Fe wnaethon nhw awgrymu y dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys gallu nodi arwyddion o arferion trosi, meithrin dull empathig a sensitif wrth helpu diodefwyr, a dysgu am dechnegau ar gyfer casglu data. Soniodd ychydig o ymatebwyr yn benodol y dylai addysg a hyfforddiant gael eu cynllunio gan oroeswyr arferion trosi neu unigolion LHDT.

"Cyflogwch a hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn arbennig i ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol yn benodol i ddiodefwyr therapi trosi, gan y gall y trawma fod yn gymhleth ac yn unigryw." (Unigolyn, 18 i 24 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Thema 3: Mathau eraill o gymorth yr oedd ymatebwyr yn teimlo y gellid eu darparu i ddiodefwyr arferion trosi

Galwodd rhai ymatebwyr am fuddsoddi mwy o adnoddau mewn ymdrechion atal, megis monitro gwefannau a oedd yn hyrwyddo arferion trosi.

"Mae angen monitro sefydliadau sy'n dylanwadu ac sy'n rhoi pwysau ar bobl ifanc agored i niwed ar-lein trwy wefannau, blogiau, ac ati sy'n hyrwyddo therapi trosi yn well." (Unigolyn, 55 i 64 oed, Cristion, syth/heterorywiol, annhrawsryweddol)

Dyweddodd ymatebwyr eraill ei bod hi'n bwysig ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd roi gwybod am achosion posibl.

"Gwrandewch ar yr hyn mae aelodau'r gymuned LHDT yn ei ddweud, a gwnewch hi'n haws iddyn nhw roi gwybod am drosedd casineb." (Unigolyn, 18 i 24 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Teimlai rhai ymatebwyr na ddylai gwasanaethau statudol ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ddarparu cymorth i ddiodefwyr arferion trosi.

"Nid lle'r Heddlu na Gwasanaeth Erllyn y Goron yw darparu cymorth i ddiodefwyr therapi trosi, dylai hynny fynd i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl a ddarperir gan y GIG." (Unigolyn, rhwng 16 a 17 oed, di-grefydd, deurywiol, annhrawsryweddol)

Thema 4: Cwestiynu'r angen am gymorth

Roedd nifer fach o sefydliadau (yn enwedig elusennau a sefydliadau crefyddol) ac unigolion â chredoau crefyddol yn teimlo na ellid labelu pawb a oedd wedi cael arferion trosi yn 'diodefwyr'. Roedd yr ymatebwyr hyn yn aml yn sôn bod rhai mathau o arferion trosi yn sgysiaau preifat, cydsyniol rhwng unigolion na ddylai'r llywodraeth eu rheoleiddio.

"Mae therapi yn sgwrs gydsyniol, breifat. Ni ddylai'r llywodraeth ymyrryd mewn sgysiaau preifat. Mae gweithredoedd corfforol a wneir yn enw 'therapi trosi' eisoes yn anghyfreithlon fel y mae'r ddogfen ymgynghori yn ei gydnabod. Dylai'r heddlu a gwasanaethau eraill ddarparu cymorth digonol i unrhyw ddiodefwyr gweithredoedd corfforol o'r fath." (Sefydliad, yn gweithio ar ran plant, pobl ifanc, a phobl â chredoau crefyddol, sydd â rhwng 11 a 49 o bobl)

Ymatebion gan sefydliadau gofal iechyd ac ymarferwyr meddygol

Pan ofynnwyd iddynt sut i gefnogi diodefwyr arferion trosi yn well, fe wnaeth yr ymatebwyr oedd yn ymarferwyr meddygol a sefydliadau gofal iechyd awgrymu syniadau tebyg i ymatebwyr yn fwy cyffredinol gan amlaf. Yn nhrefn amllder, roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol ar sut i gefnogi diodefwyr, mwy o addysg ynghylch problemau a wynebai cymunedau LHDT (roedd rhai'n teimlo y dylai'r addysg hon gael ei ddarparu gan aelodau'r gymuned LHDT), cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl (a mathau eraill o gymorth seicolegol), ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus am arferion trosi, ac ymgysylltu â chymunedau lle mae pobl ifanc mewn mwy o berygl o gael arferion trosi.

“Gallai'r GMC hwyluso datblygiad canllawiau proffesiynol i feddygon ar beth i'w wneud pan gânt eu cyflwyno i ddiodefwyr therapi trosi. Byddai datblygu canllawiau clir ar y math o gosbau a allai fod yn briodol i feddygon sy'n ymwneud â'r arfer hwn hefyd yn annog pobl i beidio â chymryd rhan.” (Sefydliad, gofal iechyd, dim manylion pellach am y maint a ddarparwyd)

“Mae mwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth LHDT+ sy'n ymdrin â materion fel therapi trosi yn hanfodol a byddai'n helpu i alluogi'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau statudol yn well i nodi'r rhai sydd mewn perygl, i gefnogi diodefwyr ac i gyfeirio diodefwyr at ffynonellau cymorth perthnasol, gan gynnwys llinellau cymorth pwrpasol ac elusennau LHDT+.” (Sefydliad, gofal iechyd, gyda 250 o bobl neu ragor)

4.6. Themâu trawsbynciol sy'n ymwneud â gwasanaethau statudol

Pryder ynghylch rhagfarn mewn gwasanaethau statudol

Cododd llawer o ymatebwyr unigol a rhai ymatebwyr sefydliadol bryderon ynghylch gwahaniaethu posibl yn y ffordd y mae sefydliadau statudol yn trin unigolion LHDT. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr hyn yn benodol at ragfarn gan yr heddlu, gan arwain at ddiffyg cymhelliant i gosbi troseddwy'r arferion trosi ac esgeuluso cymorth i ddiodefwyr.

“Mae pobl LHDT o liw wedi bod yn ddiodefwyr ers amser maith gan yr heddlu oherwydd eu hil/ethnigrwydd a hunaniaeth rhywedd/rhywioldeb. Bydd diodefwyr therapi trosi o liw hefyd yn wynebu gwahaniaethu gan yr heddlu (a sefydliadau llywodraeth eraill) am eu hil/ethnigrwydd.” (Unigolyn, 18 i 24 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, trawsryweddol)

Agweddau tuag at ddiodefwyr a chymorth iddynt

Roedd llawer o ymatebwyr unigol a rhai ymatebwyr sefydliadol nad oedd gwasanaethau statudol yn cymryd diodefwyr arferion trosi o ddifrif, gyda champau cyfyngedig yn cael eu cymryd i erlyn y rhai a oedd yn cynnal arferion trosi neu i ddarparu cymorth i ddiodefwyr. Dadleuodd yr ymatebwyr hyn, heb ddeddfwriaeth glir a phenodol, ac addysg a hyfforddiant digonol, na fyddai diodefwyr arferion trosi yn derbyn y sylw a'r cymorth priodol.

Mae gwasanaethau statudol yn anwybyddu risgiau therapi trosi – gan gynnwys cam-drin corfforol neu rywiol – oherwydd eu bod yn eu gweld fel anghytundebau ynghylch credoau crefyddol neu ddiwylliannol mewn teuluoedd neu gymunedau. Mae awdurdodau statudol yn cymryd camau cyfyngedig i gefnogi diodefwyr therapi trosi i ddiac rhag sefyllfaoedd camdriniol, a champau cyfyngedig iawn yn erbyn y cyflawnwyr. (Sefydliad sy'n gweithio ar ran pobl ifanc, pobl LHDT, pobl â chredoau crefyddol, a menywod, dim manylion pellach am faint wedi'u darparu)

5. Aseidiadau o effeithiau economaidd a chhydraddoldeb

Cwestiwn 15

A oes gennych unrhyw dystiolaeth ar gostau neu fuddion economaidd neu ariannol unrhyw un o'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad? Os oes, a allwch roi manylion y dystiolaeth hon i ni, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl, unrhyw gyfeiriadau at gyhoeddiadau?

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Ydw	4%	6%	4%
Nac ydw	96%	94%	96%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: 9 ymatebydd nad oeddent yn nodi eu hunain fel unigolyn nac fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- y dywedodd 4% o'r ymatebwyr fod ganddynt dystiolaeth ar gostau neu fanteision economaidd neu ariannol unrhyw un o'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad, ac y dywedodd 96% o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt dystiolaeth
- bod sefydliadau ychydig yn fwy tebygol o ateb 'Oes' nag unigolion (6% o'i gymharu â 4%)
- roedd ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi yn fwy tebygol o ateb 'Oes' o'i gymharu ag ymatebwyr a ymatebodd nad oeddent wedi'u cael (11% o'i gymharu â 3%)
- nad oedd gwahaniaeth mawr yn yr ymatebion yn ôl cefndir crefyddol, ymarferwyr meddygol, sefydliadau gofal iechyd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd na maint sefydliad (tua 4% o ymatebwyr ar draws pob grŵp)

Gofynnodd yr ymgynghoriad am enghreifftiau o dystiolaeth ar gostau neu fanteision economaidd neu ariannol unrhyw un o'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Ni roddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw enghreifftiau penodol, ond fe wnaethant drafod eu meddyliau a'u barn ar fater costau neu fanteision yn fwy cyffredinol. Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o ddadansoddiad ansoddol o ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag:

- arbedion o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag arferion trosi: dadleuodd yr ymatebwyr y

byddai angen lefelau uwch o wasanaethau gofal iechyd ar ddioddefwyr arferion trosi oherwydd yr effeithiau negyddol hirdymor ar iechyd corfforol a meddyliol – roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y byddai problemau iechyd corfforol a meddyliol hefyd yn cael effeithiau eilaidd ar gyflogaeth, gan arwain at golli refeniw treth, colli cynhyrchiant, a mwy o angen am daliadau budd-daliadau

- perthnasedd costau a manteision ariannol: roedd llawer o ymatebwyr yn credu na ddylid ystyried pryderon economaidd ac ariannol wrth drafod materion hawliau dynol, gan alw am weithredu'r cynigion ni waeth beth fo'r costau posibl
- costau cyfle: y gost a grybwyllwyd amlaf oedd cost anuniongyrchol peidio â buddsoddi mewn meysydd eraill yr oedd ymatebwyr yn eu hystyried yn fwy buddiol i'r cyhoedd, gan gynnwys y GIG, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, neu'r heddlu
- costau o ymchwilio a gorfodi cydymffurfiaeth â'r cynigion: roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y byddai goruchwilio a gweithredu'r cynigion yn golygu costau ariannol sylweddol, gan gynnwys costau ymchwilio i adroddiadau am arferion trosi a chosbi unigolion euog, a byddai'n anodd i wasanaethau statudol ymdrin â'r cyfrifoldebau ychwanegol gan eu bod eisoes wedi'u hymestyn i'r eithaf

Cwestiwn 16

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried neu feddwl sut mae eu polisïau neu eu penderfyniadau yn effeithio ar bobl sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. A oes gennych unrhyw dystiolaeth o effeithiau ar gydraddoldeb unrhyw gynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad?

Ymatebion	Unigolion	Sefydliadau	Pob ymatebydd
Ydw	21%	40%	21%
Nac ydw	79%	60%	79%
Cyfanswm	27,932	628	28,569

Nodyn: 9 ymatebydd nad oeddent yn nodi eu hunain fel unigolyn nac fel sefydliad. Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos:

- y dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (79%) nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth o effeithiau unrhyw gynig a nodwyd yn yr ymgynghoriad ar gydraddoldeb, tra dywedodd 21% fod ganddynt dystiolaeth
- y dywedodd 40% o sefydliadau fod ganddynt dystiolaeth o effeithiau ar gydraddoldeb o'i gymharu â 21% o unigolion
- roedd ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi yn fwy tebygol o ateb 'Oes' o'i gymharu ag ymatebwyr ac ymatebodd nad oeddent wedi'u cael (25% o'i gymharu â 19%)
- bod ymatebwyr â chefnidir crefyddol ddwywaith yn fwy tebygol o ateb 'Oes' na'r rhai nad oeddent yn ateb (33% i 16%)
- bod ymatebwyr oedd yn ymarferwyr meddygol ychydig yn llai tebygol o ateb 'Oes' o'i gymharu â'r rhai nad oeddent (19% o'i gymharu â 21%)
- bod ymatebwyr syth/heterorywiol ddwywaith yn fwy tebygol o ateb 'Oes' o'i gymharu ag ymatebwyr LHDT+ (26% o'i gymharu â 12%)
- yr atebodd 11% o ymatebwyr trawsryweddol 'Oes' o'i gymharu â 21% o ymatebwyr annhrawsryweddol
- Dywedodd 29% o sefydliadau mawr (250 o bobl neu fwy) fod ganddynt dystiolaeth o effeithiau unrhyw gynig a nodwyd yn yr ymgynghoriad ar gydraddoldeb, tra dywedodd 41% o sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl fod ganddynt dystiolaeth

Roedd cwestiwn yr ymgynghoriad yn gofyn am enghreifftiau o dystiolaeth o effaith unrhyw gynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad ar gydraddoldeb. Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr drafod unrhyw enghreifftiau penodol, ond fe wnaethant ddarparu eu meddyliau a'u barn am faterion cydraddoldeb yn fwy cyffredinol.

Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o ddadansoddiad ansoddol o ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag:

- bygythiadau posibl i ryddid barn a rhyddid crefyddol: cododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn bryderon ynghylch goblygiadau'r cynigion ar gyfer rhyddid barn ac ymarfer crefyddol – roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn credu, yn dibynnu ar y geiriad penodol a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth, y gallai'r cynigion gyfyngu ar y gallu i weddio dros eraill neu addysgu credoau crefyddol, gan wthio grwpiau crefyddol i'r ymylon yn y pen draw a gwahaniaethu yn eu herbyn
- pryder ynghylch effeithiau ar ofodau un rhyw: mynegodd rhai ymatebwyr bryder hefyd ynghylch effaith y cynigion ar ofodau un rhyw a hawliau sy'n seiliedig ar ryw (yn enwedig i fenywod) – er enghraifft, roedd nifer fach o ymatebwyr yn credu y byddai'r cynigion yn hwyluso mynediad troseddwr rhyw i ofodau un rhyw (a nifer fach iawn o ymatebwyr yn cyfeirio'n benodol at garchardai menywod fel enghraifft)
- cydraddoldeb i bobl LHDT: canolbwyntiodd rhai ymatebwyr ar ganlyniadau cadarnhaol y cynigion: drwy gael gwared ar arferion trosi fel rhan dderbyniol o gymdeithas, byddai'r cynigion yn cefnogi unigolion LHDT i deimlo'n fwy derbyniol ac integredig o fewn eu cymunedau – i'r ymatebwyr hyn, byddai'r cynigion hefyd yn hyrwyddo cydraddoldeb drwy gyfleu'n glir bod rhagfarn yn annerbyniol a meithrin gwell dealltwriaeth o gyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol ar draws y cyhoedd ehangach

6. Themâu trawsbynciol

Nodwyd nifer o themâu yn ystod y dadansoddiad ansoddol a oedd yn croesi nifer o gwestiynau mewn gwahanol adrannau o'r ddogfen ymgynghori, ac adroddir isod ar y themâu a godwyd gan amlaf. Roedd 2 floc arall o gwestiynau yn nodedig am gael nifer o themâu trawsbynciol, yn benodol y bloc o gwestiynau ar 'Gyfyngu ar hyrwyddo therapi trosi' ac ar 'Sicrhau bod gwasanaethau statudol yn nodi therapi trosi'. Mae'r themâu trawsbynciol penodol hynny wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn (gweler adrannau 4.4 a 4.6) ynghyd â'r set fwyaf perthnasol o gwestiynau.

Y themâu trawsbynciol a gynhwysir yn yr adran hon yw:

- termau allweddol yn y cynigion
- ymdrin â chyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol
- dulliau gwahanol ar gyfer pobl dan 18 oed
- darparu gwasanaethau gofal iechyd
- codi ymwybyddiaeth o adnoddau a chymorth

6.1. Termau allweddol mewn cynigion

Mynegodd llawer o ymatebwyr farn nad oedd y cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori yn ddigon clir, gyda'r diffiniadau penodol a ddefnyddir ar gyfer "therapi trosi", "gweddi", a "chaniatâd" yn cael eu trafod yn helaeth. Yn ôl llawer o ymatebwyr, pe bai diffiniadau amwys yn cael eu defnyddio mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, gallai hyn rwystro cymorth gyfreithlon a gadael bylchau i barhad arferion trosi anghydsyniol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen diffiniad mwy pendant o weithredoedd anghorfforol o arferion trosi er mwyn osgoi camddealltwriaethau ynghylch yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn fynegiant cyfreithlon o safbwyntiau.

“Os diffinnir therapi trosi fel trosi o [LHDT] i heterorywiol, ac o draws i gisryweddol, rwy'n cytuno'n llwyr â'r dull hwn. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen hon yn gwneud hynny. Gyda'r diffiniad presennol, byddai'n cyfyngu ar effaith cannoedd o elusennau sy'n cefnogi pobl ifanc wrth iddynt wneud cynnydd ynghylch cadarnhau eu rhywedd a'u rhywioldeb fel rhywbeth sy'n wahanol i fwyafrif y boblogaeth. Mae hwn yn waith sy'n achub bywydau, ac ni ddylid ei rwystro.” (Unigolyn, 25 i 34 oed, gwryw, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

6.2. Ymdrin â chyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol

Gwahaniaethodd rhai ymatebwyr rhwng arferion trosi sy'n canolbwyntio ar ymdrechion i newid

person i fod yn drawsryweddol neu o fod yn drawsryweddol ac arferion trosi sy'n canolbwyntio ar newid cyfeiriadedd rhywiol person. Roedd yr ymatebwyr hyn, a oedd yn cynnwys unigolion a sefydliadau, yn cefnogi gwaharddiad ar arferion trosi gyda'r nod o drosi rhywun o fod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol yn benodol (yn hytrach na, dyweder, cyfeiriadedd rhywiol arall), i fod yn heterorywiol. Fodd bynnag, fe wnaethant godi pryderon ynghylch gwahardd arferion a oedd yn defnyddio dulliau tebyg ond a oedd yn canolbwyntio ar newid rhywun i fod yn drawsryweddol neu o fod yn drawsryweddol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn debygol o ymateb 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' pan ofynnwyd iddynt 'A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth ymyrryd i ddod â therapi trosi i ben mewn egwyddor?', gan awgrymu nad oeddent yn gwrthwynebu gwaharddiad penodol ar arferion trosi trawsryweddol ond yn hytrach yn canolbwyntio ar yr anawsterau a'r ystyriaethau posibl wrth ddrafftio a gweithredu deddfwriaeth benodol i weithredu gwaharddiad o'r fath.¹⁴ Yn ôl yr ymatebwyr hyn, ni ddylid cadarnhau hunaniaethau trawsryweddol ar unwaith, ond eu trafod gyda meddygon proffesiynol, teulu, ac oedolion perthnasol eraill. Byddai hyn yn cynnwys athrawon yn achos plant. I'r ymatebwyr hyn, ni ddylai therapïau siarad, dulliau aros gwylidwrus, na gwasanaethau tebyg eraill ddod o fewn y gwaharddiad ar therapïau trosi.

"Drwy gyfuno hunaniaeth rhywedd â chyfeiriadedd o'r un rhyw rydych mewn perygl o greu safbwynt neu bolisi a fydd yn amhosibl ei ddehongli a'i weithredu. Mae risg enfawr o gyfyngu ar sgysiaid pwysig i bobl sy'n archwilio eu rhywioldeb a'u hunaniaeth, naill ai gyda therapyddion neu yn y gymdeithas ehangach." (Unigolyn, 45 i 54 oed, di-grefydd, syth/heterorywiol)

6.3. Dulliau gwahanol ar gyfer pobl dan 18 oed

Nododd y ddogfen ymgynghori fod y drosedd newydd arfaethedig yn cynnwys amddiffyniadau cryfach i'r rhai dan 18 oed gan mai barn y llywodraeth flaenorol oedd bod y rhai dan 18 oed yn fwy agored i niwed ac felly mewn mwy o berygl o gael eu niweidio gan yr arfer hwn. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd amddiffyn plant, y gallai eu datblygiad personol gael ei effeithio'n negyddol a byddent yn arbennig o agored i effeithiau hirdymor profiadau niweidiol sy'n gysylltiedig ag arferion trosi. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn anghytuno ynghylch sut y dylai'r rhai dros 18 oed gael eu diogelu gan y cynigion. Dadleuodd rhai ymatebwyr na ddylai unrhyw waharddiad fod yn berthnasol i oedolion os oeddent yn cydsynio ac nad oedd unrhyw niwed corfforol.

"Rwy'n cytuno ar gyfer y rhai o dan 18 oed, ond rwy'n credu y dylai oedolion allu gwneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn â therapi trosi." (Unigolyn, 45 i 54 oed, di-grefydd, deurywiol)

Dadleuodd ymatebwyr eraill y dylid rhoi amddiffyniad arbennig hefyd i'r rhai dros 18 oed, gan y gallai oedolion, yn eu barn nhw, fod yn agored i niwed a chael eu niweidio gan arferion trosi.

"Er y dylai fod amddiffyniadau ychwanegol i blant dan oed, mae llawer o achosion lle gallai oedolion agored i ddylanwad deimlo y dylent geisio triniaeth. Dylid helpu oedolion a fyddai'n ei ystyried yn feddyliol mewn ffyrdd eraill mwy buddiol." (Unigolyn, 35 i 44 oed, Cristnogol, hoyw neu lesbiaidd, annhrawsryweddol)

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bryderon ynghylch y cynigion yn gohirio darpariaeth angenrheidiol ymyriadau meddygol ac na ddylid gwrthod mynediad digonol at wasanaethau gofal iechyd i bobl

¹⁴ Mae hyn yn debyg i bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i Gwestiwn 4 o dan thema mynediadat therapi siarad neu gwnsela cyfreithlon.

dan 18 oed ar sail eu hoedran.

“Gellir defnyddio'r darpariaethau hyn i wadu mynediad at ofal iechyd i bobl drawsryweddol o dan 18 oed. Byddwn i'n cytuno â'r cynigion hyn pe byddent yn cynnwys amddiffyniadau i bobl drawsryweddol o dan 18 oed sydd angen mynediad at ofal iechyd.” (Unigolyn, 25 i 34 oed, di-grefydd, hoyw neu lesbiaidd, anhrawsryweddol)

6.4. Darparu gwasanaethau gofal iechyd

Dadluedd llawer o ymatebwyr y gallai'r cynigion atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd cyfreithlon. Dywedodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys llawer o sefydliadau gofal iechyd, y dylid cymryd gofal i sicrhau nad oedd y cynigion yn rhwystro darparu therapïau siarad cyfreithlon i bobl nad oeddent yn teimlo bod eu rhywedd yn cyd-fynd â'u rhyw cofrestredig, neu'r rhai oedd yn cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol.

“Mae rhai elusennau'n darparu cymorth i blant ac oedolion ifanc sydd â dysfforia rhywedd. Rhaid caniatáu iddyn nhw gynnig dewis arall yn lle cadarnhad a bywyd o driniaethau meddygol.” (Unigolyn, 45 i 54 oed, di-grefydd, syth/heterorywiol, nad yw'n drawsryweddol)

“Mae therapïau siarad cyfreithlon yn bwysig i gymdeithas, yn enwedig i bobl LHDTQ, sydd â chanlyniadau iechyd meddwl gwaeth o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae'n rhaid i arferion trosi beidio ag arwain at ymyrraeth i seicolegwyr proffesiynol, seiciatryddion, seicotherapyddion, cwmselwyr a chlinigwyr eraill a staff gofal iechyd sy'n darparu cymorth cyfreithlon i'r rhai a allai fod yn cwestiynu a ydyn nhw'n LHDTQ. (Sefydliad, gofal iechyd, yn gweithio ar ran plant, pobl ifanc, pobl LHDT, a menywod, sydd â 250 o bobl neu fwy)

Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn teimlo na ddylai elusennau sy'n darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc â dysfforia rhywedd neu'r rhai sy'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol fod mewn perygl o wynebu unrhyw gosb na gwaharddiad, gan fod yr elusennau hyn yn darparu cymorth reolaidd i unigolion.

“Os yw plentyn 8 oed yn dweud wrth weithiwr proffesiynol, 'Rwy'n credu fy mod i wedi cael fy ngeni yn y corff anghywir', mae'n gwbl gywir y dylai gweithiwr proffesiynol gwestiynu hynny'n feddylgar yn hytrach na dim ond derbyn neu ategu. Ni ellir ymdrin â'r math hwn o sefyllfa gan unrhyw ddeddf newydd.” (Unigolyn, 35 i 44 oed, di-grefydd, syth/heterorywiol)

Roedd rhai ymatebwyr yn credu y gallai'r gwaharddiad arfaethedig effeithio ar fynediad at wasanaethau gofal iechyd cyfreithlon ac angenrheidiol i bobl drawsryweddol, fel llawdriniaeth ailbennu rhywedd i oedolion ac/neu gwasanaethau hunaniaeth rhywedd, yn ogystal â sgysiau archwiliadol ar gyfeiriadedd rhywiol unigolyn ac a oeddent yn drawsryweddol ai peidio. Ar hyn o bryd, darperir cymorth gan ymarferwyr gofal iechyd arbenigol ac elusennau sy'n canolbwyntio ar LHDT a mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai'r sefydliadau hyn mewn perygl o gael sancsiynau o dan y cynigion neu y gallai mynediad at wasanaethau cyfatebol dramor fod mewn perygl hefyd.

“Mae cynigion presennol y llywodraeth yn gadael gormod o le i atal grwpiau sy'n buddsoddi mewn helpu pobl LHDTQRhA+ i archwilio eu hunaniaethau. Bydd unrhyw ddeddfwriaeth a allai effeithio ar yr elusennau, cyrff anllywodraethol a grwpiau eraill hyn yn achosi niwed anfesuradwy. Mae'r sianeli swyddogol ar gyfer mynediad at ofal iechyd traws – yn enwedig yn y sector cyhoeddus – yn llawn biwrocratiaeth, heb ddigon o staff na digon o gyllid.”

(Unigolyn, 18 i 24 oed, di-grefydd, syth/heterorywiol, annhrawsryweddol)

6.5. Codi ymwybyddiaeth o adnoddau a chymorth

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr y diffyg gwybodaeth gyhoeddus yn ymwneud ag arferion trosi, ac yn fwy penodol ynghylch camau y gellid eu cymryd, lle gallai trosedd fod wedi digwydd ac i ddarparu cymorth i ddioddefwyr arferion trosi. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd yr angen i hysbysu'r cyhoedd yn well ynghylch pa mor gyffredin yw arferion trosi a'u peryglon.

“Yn aml iawn, nid yw therapi trosi yn cael ei nodi ac yn aml nid yw'n cael ei weld am yr hyn ydyw chwaith. Nid yw'n ymddangos bod awdurdodau wedi cael digon o hyfforddiant arno i fod yn ymwybodol o'r arwyddion na'r niweidiau, ac maent yn ei briodoli i gecru cyffredinol neu straen gwahaniaeth hunaniaeth mewn teuluoedd a chymunedau clos.” (Sefydliad, yn gweithio ar ran pobl LHDT, gyda rhwng 11 a 49 o bobl)

Cyfeiriadau

Fereday J a Muir-Cochrane E (2006). Demonstrating Rigor Using Thematic Analysis: A Hybrid Approach of Inductive and Deductive Coding and Theme Development. *International Journal of Qualitative Methods*, 5(1), 80 i 92.

<https://doi.org/10.1177/160940690600500107>

Government Equalities Office (2018). National LHDT Survey.

Jowett A, Brady G, Goodman S, Pillinger C and Bradley L (2021). Conversion therapy: An evidence assessment and qualitative study.

<https://www.gov.uk/government/publications/conversion-therapy-an-evidence-assessment-and-qualitative-study/conversion-therapy-an-evidence-assessment-and-qualitative-study>

Wei J and Zou K (2019). EDA: Easy Data Augmentation Techniques for Boosting Performance on Text Classification Tasks. *Proceedings of the 2019 Conference on Empirical Methods in Natural Language Processing and the 9th International Joint Conference on Natural Language Processing (EMNLP-IJCNLP)*, 6382 to 6388. <https://doi.org/10.18653/v1/D19-1670>

Atodiad A: Cwestiynau Ymgynghori

Cwestiynau am yr ymatebydd

- A. Ydych chi'n darparu ymateb unigol neu bersonol neu ymateb ar ran sefydliad?
- Unigol neu bersonol
 - Sefydliad

Gofynnwyd i sefydliadau yn unig

- B. Beth yw enw eich sefydliad? (Ysgrifennwch)
- C. Pa fath o sefydliad ydyw? (Ticiwch y categori sy'n adlewyrchu eich sefydliad orau)
- Elusen/sefydliad trydydd sector
 - Grŵp cymunedol
 - Llywodraeth ganolog
 - Llywodraeth leol
 - Ysgol
 - Coleg neu brifysgol
 - Sefydliad cyfiawnder troseddol (gan gynnwys y proffesiwn cyfreithiol)
 - Darparwr gofal iechyd cyffredinol
 - Darparwr gofal iechyd arbenigol LHDT
 - Sefydliad crefyddol
 - Corff proffesiynol
 - Sefydliad sy'n gweithio ym maes hysbysebu
 - Busnes preifat
 - Arall
 - Gwell gennyf beidio â dweud
- D. A yw'ch sefydliad yn gweithio ar ran unrhyw un o'r bobl ganlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
- Plant
 - Pobl ifanc (16 oed neu hŷn)
 - Pobl LHDT
 - Pobl â chredoau crefyddol
 - Menywod
 - Dim un o'r uchod
- E. Ym mha wlad mae'ch sefydliad yn gweithio? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
- Lloegr
 - Gogledd Iwerddon

- Yr Alban
- Cymru
- Y tu allan i'r DU

F. Tua faint o bobl sy'n gweithio yn eich sefydliad?

- 1 i 10 o bobl
- 11 i 49 o bobl
- 50 i 249 o bobl
- 250 o bobl neu fwy
- Ddim yn gwybod
- Gwell gennyf beidio â dweud

Gofynnwyd i unigolion yn unig

G. Mae'r ymgynghoriad yn agored i bawb. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan bobl sydd â phrofiadau perthnasol. A allwch chi ddweud wrthym a ydych (unrhyw un o'r canlynol): (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- wedi profi therapi trosi (byddwn yn gofyn ychydig o gwestiynau am hyn yn ddiweddarach)
- ag aelod o'r teulu sydd wedi profi therapi trosi
- yn gweithio gyda dioddefwyr therapi trosi
- Amdanoch chi
- yn gweithio gyda'r sector elusennol LHDT
- yn gweithio i sefydliad crefyddol
- â chredoau crefyddol (byddwn yn gofyn cwestiwn am eich crefydd yn ddiweddarach)
- yn ymarferydd meddygol sy'n cefnogi unrhyw un sy'n cwestiynu a ydynt yn LHDT
- yn gweithio gyda sefydliadau eraill sydd â phrofiad o therapi trosi.

H. Ble rydych chi'n byw?

- Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Dwyrain Lloegr
- Llundain
- Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Gogledd-orllewin Lloegr
- Swydd Efrog a Humber
- De-ddwyrain Lloegr
- De-orllewin Lloegr
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Y tu allan i'r DU

I. Faint yw eich oedran?

- rhwng 16 a 17 oed
- rhwng 18 a 24 oed
- rhwng 25 a 34 oed
- rhwng 35 a 44 oed
- rhwng 45 a 54 oed
- rhwng 55 a 64 oed
- rhwng 65 a 74 oed
- 75 oed neu hŷn

J. Beth yw eich rhyw? (Gofynnir cwestiwn ar rywedd yn nes ymlaen)

- Benyw
- Gwryw
- Gwell gennyf beidio â dweud

K. Beth yw eich grŵp ethnig? (Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio orau eich grŵp neu gefndir ethnig)

- Gwyn - Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gwyddelig o'r Gogledd, Prydeinig
- Gwyn - Gwyddelig
- Gwyn - Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
- Gwyn - Roma
- Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall
- Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog - Gwyn a Du Caribïaidd
- Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog - Affricanaidd Gwyn a Du
- Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog - Gwyn ac Asiaidd
- Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog - Unrhyw gefndir ethnig Cymysg neu Luosog arall
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshi
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Unrhyw gefndir Asiaidd arall
- Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd - Affricanaidd
- Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd - Caribïaidd
- Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd - unrhyw gefndir Du arall
- Grŵp ethnig arall - Arabaidd
- Grŵp ethnig arall - Unrhyw grŵp ethnig arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

L. Beth yw eich crefydd?

- Di-grefydd
- Cristnogol (gan gynnwys Eglwys Loegr, Catholig, Protestannaidd a phob enwad Cristnogol arall)
- Bwdhaidd
- Hindŵaidd

- Iddewig
- Moslemaidd
- Sicaidd
- Unrhyw grefydd arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

M. Beth oedd galwedigaeth prif enillydd eich aelwyd pan oeddech tua 14 oed? (Mae'r cwestiwn hwn yn rhoi syniad o gefndir economaidd-gymdeithasol)

- Galwedigaethau proffesiynol modern a thraddodiadol megis: athro, nyrs, ffisiotherapydd, gweithiwr cymdeithasol, cerddor,
- swyddog heddlu (rhingyll neu uwch), dylunydd meddalwedd, cyfrifydd, cyfreithiwr, ymarferydd meddygol, gwyddonydd, sifil /
- peiriannydd mecanyddol
- Rheolwyr neu weinyddwyr uwch, canol neu iau fel: rheolwr cyllid, prif weithredwr, perchennog busnes mawr, swyddfa
- rheolwr, rheolwr manwerthu, rheolwr banc, rheolwr bwyty, rheolwr warws
- Galwedigaethau clerigol a chanolradd megis: ysgrifennydd, cynorthwydd personol, asiant canolfan alwadau, gweithiwr clerigol, nyrs feithrin.
- Galwedigaethau technegol a chreffft megis: peiriannydd modur, plymer, argraffwr, trydanwr, garddwr, gyrrwr trên
- Galwedigaethau llaw a gwasanaeth arferol, lled-arferol megis: gweithiwr post, gweithredwr peiriannau, gwarchodwr diogelwch, gofalwr,
- gweithiwr fferm, cynorthwydd arlwyo, cynorthwydd gwerthu, gyrrwr cerbydau nwyddau trwm, glanhawr, porthor, paciwr, llafurwr, gweinydd/morwyn, staff y bar
- Di-waith hirdymor (wedi hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-dal diweithdra cynharach am fwy na blwyddyn).
- Perchnogion busnesau bach oedd yn cyflogi llai na 25 o bobl megis: perchnogion siopau cornel, cwmnïau plymio bach, manwerthu
- perchennog siop, perchennog bwyty neu gaffi sengl, perchennog tacsï, perchennog garej
- Eraill megis: wedi ymddeol, nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i mi
- Ddim yn gwybod
- Gwell gennyf beidio â dweud

N. A yw'ch hunaniaeth rhywedd yr un peth â'ch rhyw adeg eich geni?

- Ydw
- Nac ydy (Os Nac ydy: Nodwch eich hunaniaeth rhywedd. Ysgrifennwch)
- Gwell gennyf beidio â dweud

O. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

- Syth/Heterorywiol
- Hoyw neu Lesbiaidd
- Deurywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol arall (Os cyfeiriadedd rhywiol Arall: Nodwch eich cyfeiriadedd rhywiol.

- Ysgrifennwch)
- Gwell gennyf beidio â dweud
- P.** Oes gennych chi unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu anhwylderau sy'n parhau neu y disgwylir iddynt barhau 12 mis neu fwy?
- Oes (Os Oes. A yw unrhyw un o'ch cyflyrau neu anhwylderau yn lleihau eich gallu i gynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd?)
 - Nac ydw

Cwestiynau am brofiadau ymatebwyr o therapi trosi

Mae'r adrannau canlynol ar brofiadau ymatebwyr o therapi trosi. Fe'u defnyddir i nodi'r ymatebion hynny gan bobl sydd â phrofiad penodol o therapi trosi, ac a yw hynny'n llywio eu hymatebion. Gofynnir y cwestiynau hyn i unigolion yn unig.

- I.** Gellir cyflawni ystod eang o weithredoedd yn enw therapi trosi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth o weithredoedd o drais corfforol - er enghraifft ymosod a threisio - i ymyriadau a therapiau siarad. A ydych erioed wedi cael cynnig therapi trosi?
- Ydw
 - Nac ydw
 - Efallai / Ddim yn gwybod
 - Gwell gennyf beidio â dweud
- II.** Ydych chi erioed wedi cael therapi trosi?
- Ydw
 - Nac ydw
 - Efallai / Ddim yn gwybod
 - Gwell gennyf beidio â dweud

Os ydych wedi cael mwy nag un profiad o therapi trosi, canolbwyntiwch ar eich profiad diweddaraf

- III.** Pwy gynhaliodd y therapi trosi hwn?
- Person o sefydliad neu grŵp ffydd
 - Rhiant, gwarcheidwad neu aelod arall o'r teulu
 - Cwnselydd
 - Seiciatrydd
 - Seicolegydd
 - Seicotherapydd
 - Person o fy nghymuned
 - Gweithiwr meddygol proffesiynol arall
 - Unigolyn arall ac eithrio gweithiwr meddygol proffesiynol
 - Gwell gennyf beidio â dweud
- IV.** A allwch ddweud wrthym yn fras beth oedd eich oedran pan gynhaliwyd y therapi trosi hwn?
- Dan 10 oed
 - rhwng 11 a 15 oed
 - rhwng 16 a 17 oed

- rhwng 18 a 24 oed
- rhwng 25 a 34 oed
- rhwng 35 a 44 oed
- rhwng 45 a 54 oed
- rhwng 55 a 64 oed
- rhwng 65 a 74 oed
- 75 oed neu hŷn

V. Ble cynhaliwyd y therapi trosi hwn?

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Y tu allan i'r DU
- Gwell gennyf beidio â dweud

VI. A oedd y therapi trosi hwn wedi'i anelu at newid eich cyfeiriadedd rhywiol neu a oeddech chi'n drawsryweddol ai peidio, neu'r ddau?

- Cyfeiriadedd rhywiol
- Trawsryweddol
- Cyfeiriadedd rhywiol a thrawsryweddol
- Gwell gennyf beidio â dweud

VII. Pa ffurf a gymerodd y therapi trosi hwn?

- Therapi gwybyddol-ymddygiadol (megis nodi sbardunau ymddygiadol)
- Therapiau seicoddadansoddol (megis archwilio trawma teuluol)
- Gweithgaredd grŵp (megis grwpiau cymorth)
- Mentora (megis cyfeillio)
- Therapi teuluol (sy'n cynnwys un neu fwy o aelodau'r teulu)
- Gweithgareddau ysbrydol, crefyddol neu ffydd (megis iacháu gweddi)
- Therapi cosbi (megis therapi sioc drydanol)
- Dulliau corfforol (megis ymyrraeth feddygol neu ymosodiad corfforol)
- Dull neu weithgaredd arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

Barn ar wahardd therapi trosi - cwestiynau ymgynghori

Cwestiwn ymgynghori cyffredinol. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth ymyrryd i roi terfyn ar therapi trosi mewn egwyddor?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn? (Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)

C1. I ba raddau ydych chi'n cefnogi, neu beidio â chefnogi, cynnig y llywodraeth i fynd i'r afael â

gweithredoedd corfforol therapi trosi?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi rhywfaint
- Ddim yn cefnogi nac yn peidio â chefnogi
- Heb gefnogi rhywfaint
- Heb gefnogi'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn? (Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)

C2. Mae'r llywodraeth o'r farn y dylid ystyried bod darparu therapi trosi siarad gyda'r bwriad o newid cyfeiriadedd rhywiol unigolyn neu eu newid o fod yn drawsryweddol neu i fod yn drawsryweddol naill ai i rywun sydd o dan 18 oed, neu i rywun sy'n 18 oed neu'n hŷn ac nad yw wedi cydsynio neu nad oes ganddo'r gallu i wneud hynny yn drosedd. Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio cynigion i gyflwyno deddf droseddol newydd a fydd yn nodi hyn. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

C3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cosbau sy'n cael eu cynnig?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

C4. Ydych chi'n meddwl bod y cynigion hyn yn methu unrhyw beth? Os ydych chi, a allwch chi ddweud wrthym beth rydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'i fethu?

- Ydw (Os ydych chi, a allwch chi ddweud wrthym beth rydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'i fethu? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

C5. Mae'r llywodraeth o'r farn bod Cod Darlledu Ofcom eisoes yn darparu mesurau yn erbyn darlledu a hyrwyddo therapi trosi. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn? (Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)

C6. Ydych chi'n gwybod am unrhyw enghreifftiau o ddarlledu yr ydych chi'n ystyried eu bod nhw'n cymeradwyo neu'n hyrwyddo therapi trosi?

- Ydw (Os ydych chi, allwch chi ddweud wrthym beth yw'r enghreifftiau hyn? Ysgrifennwch)
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

C7. Mae'r llywodraeth o'r farn bod y codau presennol a nodwyd gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu a'r Pwyllgor Ymarfer Hysbysebu eisoes yn gwahardd hysbysebu therapi trosi. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

C8. Ydych chi'n gwybod am unrhyw enghreifftiau o hysbysebu yr ydych chi'n ystyried eu bod nhw'n cymeradwyo neu'n hyrwyddo therapi trosi?

- Ydw (Os ydych chi, allwch chi ddweud wrthym beth yw'r enghreifftiau hyn? Ysgrifennwch)
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

C9. Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio cynigion i gyflwyno gorchmynion amddiffyn therapi trosi i fynd i'r afael â bwllch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr yr ymarfer. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod bwllch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr therapi trosi?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

C10. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ar gyfer mynd i'r afael â'r bwllch rydym wedi'i nodi?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn? (Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)

C11. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am lywodraethu elusen a chyfarwyddo sut mae'n cael ei rheoli a'i rhedeg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio cynigion lle bydd yr achos yn erbyn unrhyw un a geir yn euog o gynnal therapi trosi, i'w gwahardd rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr mewn unrhyw elusen, yn cael ei gryfhau. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn? (Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)

C12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y sefydliadau canlynol yn darparu camau digonol yn erbyn pobl a allai fod yn cynnal therapi trosi eisoes? (Yr Heddlu; Gwasanaeth Erlyn y Goron; gwasanaeth statudol ARALL)?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn? (Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)

C13. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y sefydliadau canlynol yn darparu cymorth digonol i ddiodefwyr therapi trosi? (Yr Heddlu; Gwasanaeth Erlyn y Goron; gwasanaeth statudol ARALL)?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf
- Gwell gennyf beidio â dweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn? (Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)

C14. Ydych chi'n meddwl y gall y gwasanaethau hyn wneud mwy i gefnogi diodefwyr therapi trosi? Os ydych chi, beth arall ydych chi'n meddwl y gallen nhw ei wneud?

- Ydw (Os ydych, beth arall ydych chi'n meddwl y gallen nhw ei wneud? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb)
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

Gwerthusiad economaidd

C15. A oes gennych unrhyw dystiolaeth ar gostau neu fuddion economaidd neu ariannol unrhyw un o'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad? Os oes, a allwch roi manylion y dystiolaeth hon i ni, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl, unrhyw gyfeiriadau at gyhoeddiadau?

- Oes (Os oes, a allwch roi manylion y dystiolaeth hon i ni, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl, unrhyw gyfeiriadau at gyhoeddiadau? Ysgrifennwch)
- Nac ydw

Asesiad effeithiau ar gydraddoldeb

C16. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried neu feddwl sut mae eu polisiau neu eu penderfyniadau yn effeithio ar bobl sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. A oes gennych unrhyw dystiolaeth o effeithiau ar gydraddoldeb unrhyw gynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad?

- Oes (Os oes, a allwch roi manylion y dystiolaeth hon i ni, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl, unrhyw gyfeiriadau at gyhoeddiadau? Ysgrifennwch)
- Nac ydw

Cwestiynau'n ymwneud â phreifatrwydd

C17. Hoffech chi i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol?

- Ydw
- Nac ydw

C18. Beth yw eich cyfeiriad e-bost? Os byddwch chi'n nodi'ch cyfeiriad e-bost yna byddwch chi'n derbyn e-bost cydnabod yn awtomatig pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch ymateb.

Atodiad B: Tablau crynodeb o ymatebion i gwestiynau fformat caeedig

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad fel canran o'r holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad a atebodd y cwestiwn drwy ddewis un o'r opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys 'Gwell gen i beidio â dweud'. Mae data coll neu na ellir ei godio wedi'i dynnu o'r cronfeydd data. Mae tablau llawn o ganlyniadau wedi'u rhannu yn ôl demograffeg allweddol.

Proffil yr ymatebwyr

1. Ymatebwyr unigol

Ymatebwyr yn ôl cyfeiriadedd rhywiol

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Syth/ Heterorywiol	12,078	45%
Hoyw neu lesbiaidd	6,177	23%
Deurywiol	4,086	15%
Cyfeiriadedd rhywiol arall	1,888	7%
Gwell gennyf beidio â dweud	2,421	9%
Cyfanswm yr ymatebion	26,650	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol.

Ymatebwyr yn ôl hunaniaeth rhywedd

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Trawsryweddol	2,850	11%
Annhrasryweddol	22,77	85%
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni ond dim hunaniaeth benodol wedi'i rhoi	60	0%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,139	4%
Cyfanswm yr ymatebion	26,826	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol.

Ymatebwyr yn ôl oedran

Ymatebion	Cyfrif	Canran
rhwng 16 a 17 oed	794	3%
rhwng 18 a 24 oed	3,357	12%
rhwng 25 a 34 oed	5,961	21%
rhwng 35 a 44 oed	4,710	17%
rhwng 45 a 54 oed	4,323	15%
rhwng 55 a 64 oed	4,099	15%
rhwng 65 a 74 oed	3,221	12%
75 oed neu hŷn	1,457	5%
Cyfanswm yr ymatebion	27,922	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol.

Ymatebwyr yn ôl ethnigrwydd

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Gwyn	23,314	87%
Grwpiau ethnig cymysg neu luosog	748	3%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	711	3%
Du, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd	435	2%
Grŵp ethnig arall	223	1%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,297	5%
Cyfanswm yr ymatebion	26,750	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol

Ymatebwyr yn ôl crefydd

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Di-grefydd	12,776	48%
Cristnogol	10,549	40%
Unrhyw grefydd arall	837	3%
Moslemaidd	361	1%
Iddewig	278	1%
Bwdhaidd	124	1%
Hindŵaidd	86	0%
Sicaidd	38	0%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,492	6%
Cyfanswm yr ymatebion	26,652	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol

Ymatebwyr yn ôl gwlad

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Lloegr	23,492	84%
Yr Alban	1,766	6%
Cymru	1,046	4%
Gogledd Iwerddon	928	3%
Y tu allan i'r DU	689	2%
Cyfanswm yr ymatebion	27,921	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol.

Ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Ydw	820	3%
Nac ydw	24,220	90%
Efallai / Ddim yn gwybod	539	2%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,253	5%
Cyfanswm yr ymatebion	26,832	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Ymatebwyr a atebodd 'ydw' i'r cwestiwn 'Ydych chi erioed wedi cael therapi trosi?'

Ymatebwyr a oedd ag aelod o'r teulu sydd wedi profi arferion trosi.

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Roedd ganddo aelod o'r teulu sydd wedi profi arferion trosi	793	3%
Heb aelod o'r teulu sydd wedi profi arferion trosi	27,139	97%
Cyfanswm yr ymatebion	27,932	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn 'A allwch chi ddweud wrthym os ydych chi: (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) - Beth rydych chi'n ei wneud - a oes gennych chi aelod o'r teulu sydd wedi profi therapi trosi'

Ymatebwyr a oedd yn ymarferwyr meddygol

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Ymarferydd Meddygol	926	3%
Heb fod yn ymarferydd meddygol	27,006	97%
Cyfanswm yr ymatebion	27,932	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn 'A allwch chi ddweud wrthym a ydych chi: (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) - Beth rydych chi'n ei wneud - yn ymarferydd meddygol sy'n cefnogi unrhyw un sy'n cwestiynu a ydynt yn LHDT'

Ymatebwyr sy'n gweithio gyda dioddefwyr arferion trosi

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Gweithio gyda dioddefwyr arferion trosi	600	2%
Ddim yn gweithio gyda dioddefwyr arferion trosi	27,332	98%
Cyfanswm yr ymatebion	27,932	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn 'A allwch chi ddweud wrthym os ydych chi: (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) - Beth rydych chi'n ei wneud - gwaith gyda dioddefwyr therapi trosi'

Ymatebwyr sy'n gweithio gyda'r sector elusennol LHDT

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Gweithio gyda'r sector elusennol LHDT	1,959	7%
Ddim yn gweithio gyda'r sector elusennol LHDT	25,973	93%
Cyfanswm yr ymatebion	27,932	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn "A allwch chi ddweud wrthym a ydych chi: (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) - Beth rydych chi'n ei wneud - yn gwaith gyda dioddefwyr therapi trosi"

Ymatebwyr sy'n gweithio i sefydliad crefyddol

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Gweithio i sefydliad crefyddol	1,601	6%
Ddim yn gweithio i sefydliad crefyddol	26,331	94%
Cyfanswm yr ymatebion	27,932	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn "A allwch chi ddweud wrthym a ydych chi: (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) - Beth rydych chi'n ei wneud - yn gweithio i sefydliad crefyddol"

Ymatebwyr sydd â chredoau crefyddol

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Â chredoau crefyddol	8,198	29%
Heb gredoau crefyddol	19,734	71%
Cyfanswm yr ymatebion	27,932	

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn "A allwch chi ddweud wrthym a oes gennych chi: (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) - Beth rydych chi'n ei wneud - â chredoau crefyddol (byddwn yn gofyn cwestiwn am eich crefydd yn ddiweddarach)"

Ymatebwyr sy'n gweithio gyda sefydliadau sydd â phrofiad o arferion trosi

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Gweithio gyda sefydliadau sydd â phrofiad o arferion trosi	759	3%
Peidio â gweithio gyda sefydliadau sydd â phrofiad o arferion trosi	27,173	97%

Cyfanswm yr ymatebion	27,932
------------------------------	---------------

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn "A allwch chi ddweud wrthym a ydych chi: (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) - Beth rydych chi'n ei wneud - yn gweithio gyda sefydliadau sydd â phrofiad o therapi trosi"

2. Ymatebwyr sefydliadau

Math o sefydliad

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Sefydliad crefyddol	289	51%
Elusen/sefydliad trydydd sector	159	28%
Grŵp cymunedol	68	12%
Busnes preifat	23	4%
Corff proffesiynol	16	3%
Darparwr gofal iechyd arbenigol LHDT	10	2%
Coleg neu brifysgol	10	2%
Darparwr gofal iechyd cyffredinol	8	1%
Llywodraeth leol	5	1%
Sefydliad cyfiawnder troseddol (gan gynnwys y proffesiwn cyfreithiol)	3	1%
Llywodraeth ganolog	2	0%
Ysgol	2	0%
Sefydliad sy'n gweithio ym maes hysbysebu	1	0%
Arall	36	6%
Gwell gennyf beidio â dweud	4	1%
Cyfanswm yr ymatebion	571	

Ymatebwyr: Ymatebwyr sefydliadau. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn.

Ymatebwyr yn ôl maint sefydliad

Ymatebion	Cyfrif	Canran
rhwng 1 a 10 o bobl	262	46%
rhwng 11 a 49 o bobl	119	21%
rhwng 50 a 249 o bobl	68	12%
250 o bobl neu fwy	67	12%
Ddim yn gwybod	24	4%
Gwell gennyf beidio â dweud	31	5%
Cyfanswm yr ymatebion	571	

Ymatebwyr: Ymatebwyr sefydliadau.

3. Pob ymatebydd

Ymatebwyr sy'n gweithio ar ran pobl LHDT neu ddiodefwyr arferion trosi, neu sefydliadau crefyddol

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Ydw	2,655	9%
Nac ydw	25,857	91%
Cyfanswm yr ymatebion	28,512	

Ymatebwyr: Pob ymatebydd. Cofnodir y newidyn hwn fel 'Ydw' os nododd yr ymatebydd eu bod yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol: gweithio yn y sector elusennol LHDT, gweithio gyda diodefwyr therapi trosi, gweithio i sefydliadau crefyddol, yn ymarferydd meddygol sy'n cefnogi unrhyw un sy'n cwestiynu a ydynt yn LHDT neu'n gweithio gyda sefydliadau sydd â phrofiad o therapi trosi. Os nad oes yr un o'r meini prawf yn cael eu bodloni, yna cofnodir y newidyn fel 'Nac ydw'.

Ymatebwyr sydd â 'chefndir crefyddol'

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Ydw	8,455	30%
Nac ydw	20,057	70%
Cyfanswm yr ymatebion	28,512	

Ymatebwyr: Pob ymatebydd. Cofnodir y newidyn hwn fel 'Ydw' os nododd ymatebwyr fod ganddynt brofiad o weithio i sefydliad ffydd neu fod ganddynt gredoau crefyddol (neu'r ddau). Os na chyflawnir y naill faen prawf na'r llall, cofnodir y newidyn fel 'Nac ydw'.

Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn trosfwaol

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth ymyrryd i roi terfyn ar therapi trosi mewn egwyddor?

Pob ymatebydd

Ymatebion	Cyfrif	Canran
Cytuno'n gryf	16,710	60%
Cytuno rhywfaint	2,273	8%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2,823	10%
Anghytuno rhywfaint	978	4%
Anghytuno'n gryf	3,736	13%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,192	4%
Cyfanswm yr ymatebion	27,712	

Ymatebwyr: Pob ymatebydd. Sylfaen = 27,712.

Ymatebwyr yn ôl gwlad

Gwlad	Cytuno'n gryf	Cytuno rhywfaint	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno rhywfaint	Anghytun o'n gryf	Gwell gennyf beidio â dweud
Lloegr	62%	8%	9%	4%	13%	4%
Cymru	60%	8%	12%	2%	12%	5%
Yr Alban	54%	11%	13%	3%	12%	6%
Gogledd Iwerddon	32%	4%	29%	4%	14%	18%
Y tu allan i'r DU	70%	8%	2%	3%	15%	2%
Cyfanswm yr ymatebion	61%	8%	10%	3%	13%	4%

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Sylfaen = 27,141.

Ymatebwyr sydd wedi cael arferion trosi

Ymatebion	Cytuno'n gryf	Cytuno rhywfaint	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno rhywfaint	Anghytun o'n gryf	Gwell gennyf beidio â dweud
Ydw	71%	3%	2%	3%	21%	1%
Nac ydw	66%	5%	10%	4%	13%	4%
Efallai / Ddim yn gwybod	64%	6%	6%	7%	16%	2%
Gwell gennyf beidio â dweud	9%	4%	32%	3%	29%	23%
Cyfanswm yr ymatebion	63%	5%	10%	4%	14%	4%

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Sylfaen = 26,056.

Ymatebwyr sydd â 'chefndir crefyddol'

Ymatebion	Cytuno'n gryf	Cytuno rhywfaint	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno rhywfaint	Anghytun o'n gryf	Gwell gennyf beidio â dweud
Ydw	30%	5%	18%	7%	34%	6%
Nac ydw	73%	9%	7%	2%	5%	4%
Cyfanswm yr ymatebion	60%	8%	10%	4%	13%	4%

Ymatebwyr: Pob ymatebydd. Sylfaen = 27,711.

Ymatebwyr yn ôl ymarferydd meddygol

Ymatebion	Cytuno'n gryf	Cytuno rhywfaint	Ddim yn cytuno nac	Anghytuno rhywfaint	Anghytun o'n gryf	Gwell gennyf
-----------	---------------	------------------	--------------------	---------------------	-------------------	--------------

			yn anghytuno			beidio â dweud
Ymarferydd Meddygol	73%	7%	5%	7%	8%	1%
Arall	56%	9%	11%	4%	15%	5%
Cyfanswm yr ymatebion	60%	8%	10%	4%	13%	4%

Ymatebwyr: Ymatebwyr unigol. Sylfaen = 27,409.

Ymatebwyr sy'n gweithio ar ran pobl LHDT neu ddioddefwyr therapi trosi, neu sefydliadau crefyddol

